**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Addysg Uwch yng Nghymru mewn ffigurau

Mai 2013

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 12/2788
Rhif dogfen:13 /021

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Addysg Uwch yng Nghymru mewn ffigurau

Mai 2013

Kerry Dearden

Mae'r papur ymchwil hwn yn cynnig gwybodaeth ystadegol am y sector Addysg Uwch (AU) yng Nghymru.

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 1**

**2. Y cyd-destun polisi ..... 1**

**3. Nifer y myfyrwyr yn Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) Cymru a safle'r prifysgolion yn y gynghrair ..... 2**

3.1. Nifer y myfyrwyr yn 2011/12 ..... 2
3.2. Y nifer a gofrestrwyd fesul pwnc yn 2011/12 ..... 4
3.3. Y nifer a gofrestrwyd yn SAU Cymru yn ôl domisil, lefel a dull astudio. 6
3.4. Llifau myfyrwyr dros y ffin yn y Deyrnas Unedig (cofrestriadau HESA) .. 8
3.5. Ceisiadau diweddar gan fyfyrwyr (ceisiadau UCAS) ..... 10

**4. Staffio yn SAU Cymru ..... 12**

**5. Ehangu cyfranogaeth (y cyfeirir ato hefyd fel ehangu mynediad) ..... 13**

**6. Cyrchfan myfyrwyr ..... 15**

**7. Cyflogau ..... 20**

**8. Incwm a Gwariant SAU Cymru ..... 23**

**9. Cyllid gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ..... 25**

9.1. 2011/12 a chyn hynny ..... 25
9.2. 2012/13 ..... 25
9.3. 2013/14 ..... 26

**10. Ffioedd dysgu ..... 28**

10.1. Ffioedd dysgu 2012/13 ..... 28
10.2. Ffioedd dysgu 2013/14 ..... 30

**11. Cymorth ariannol i fyfyrwyr newydd o 2013/14 ymlaen ..... 33**

11.1. Help gyda ffioedd dysgu ..... 33
11.2. Cymorth gyda chostau byw ..... 34
11.2.1. Benthyciad Cynhaliaeth ..... 34
11.2.2. Grantiau ..... 35
11.2.3. Bwrsarïau ..... 35
11.3. Help ychwanegol ..... 36

**12. Iechyd ariannol SAU Cymru ..... 39**

**13. Ymarfer Asesu Ymchwil ..... 41**

13.1. Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil ..... 41
13.2. Ymarfer Asesu Ymchwil 2008 ..... 42

**14. Cyhoeddiadau AU diweddar ..... 44**

**15. Atodiad 1 ..... 45**

# Addysg Uwch yng Nghymru mewn ffigurau

## 1. Cyflwyniad

Mae'r papur ymchwil hwn yn cynnig gwybodaeth ystadegol am y sector Addysg Uwch (AU) yng Nghymru. Daw llawer o'r wybodaeth sydd yn y papur ymchwil hwn o gyhoeddiadau'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA); Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a gwefan StatsCymru Llywodraeth Cymru.

## 2. Y cyd-destun polisi

Yn 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel yr oedd ar y pryd, ei strategaeth addysg uwch ar gyfer Cymru, sef *'Er Mwyn Ein Dyfodol':*[1] Mae'r cynllun yn cynnwys ystod o ddisgwyliadau ac ymrwymiad i sicrhau ei fod yn cyfrannu at gyfiawnder cymdeithasol, dysgu gydol oes ac economi fywiog. Mae *strategaeth gorfforaethol* Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn pennu dangosyddion sy'n gysylltiedig â'r strategaeth.[2]

Mae *Rhaglen Lywodraethu* Llywodraeth Cymru yn dweud mai un o'i bwriadau yw trawsnewid y sector Addysg Uwch (AU) yng Nghymru gan ddarparu cymorth ariannol i fyfyrwyr ar yr un pryd.[3] Dyma'r prif gamau gweithredu ym maes AU sydd yn y Rhaglen Lywodraethu:

- Cynnal ein hymrwymiad i roi cymorth ariannol i fyfyrwyr o'r cartrefi sydd â'r incwm isaf.
- Sicrhau, gan ystyried chwyddiant, nad oes unrhyw newidiadau i'r benthyciadau a roddir i dalu am ffioedd dysgu myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru fel arfer.
- Sefydlu un corff cynllunio a chyllido strategol ar gyfer Addysg Uwch.
- Sicrhau bod menter Prifysgol Blaenau'r Cymoedd yn ymwreiddio.
- Creu nifer llai o brifysgolion cryfach.

[1] Llywodraeth Cymru, **Er Mwyn Ein Dyfodol - Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr Unfed Ganrif ar Hugain** , Tachwedd 2009 [fel ar 11 Mawrth 2013]
[2] CCAUC, **Strategaeth Gorfforaethol**, 2010 [fel ar 11 Mawrth 2013]
[3] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu 2011-2016, **Addysg**, Mai 2012 [fel ar 11 Mawrth 2013]

## 3. Nifer y myfyrwyr yn Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) Cymru a safle'r prifysgolion yn y gynghrair

### *3.1. Nifer y myfyrwyr yn 2011/12*

Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yw'r asiantaeth swyddogol sy'n casglu, yn dadansoddi ac yn lledaenu gwybodaeth feintiol am addysg uwch.

Mae Tabl 1 yn rhoi'r data diweddaraf am gyfanswm nifer y myfyrwyr sydd mewn Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) yng Nghymru, yn ôl adroddiadau HESA ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12 ynghyd â safle'r Sefydliadau hynny yn nhabl cynghrair Prifysgol The Sunday Times.

Dyma'r prif bwyntiau yn Nhabl 1 ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12:

- Roedd cyfanswm o 131,185 o fyfyrwyr (yn ôl-raddedigion ac yn is-raddedigion) yn astudio yn SAU Cymru yn y flwyddyn academaidd 2011/12.
- Ar gyfartaledd, mae SAU Cymru yn llai na rhai Lloegr, o ran cyfanswm nifer y myfyrwyr (tua 3,000 o fyfyrwyr yn llai). Serch hynny, ar gyfartaledd, mae nifer y myfyrwyr sy'n dod o'r tu allan i'r UE rywbeth yn debyg yn SAU Cymru a Lloegr.
- Prifysgol Fetropolitan Caerdydd sydd â'r gyfran fwyaf o'i myfyrwyr yn dod o'r tu allan i'r UE, 29 y cant o'i gymharu â chyfartaledd o 15 y cant drwy Gymru a chyfartaledd o 12 y cant yn Lloegr. Prifysgol Aberystwyth sydd â'r gyfran leiaf o fyfyrwyr yn dod o'r tu allan i'r UE (saith y cant).
- Prifysgol Caerdydd yw'r SAU mwyaf yng Nghymru o ran nifer y myfyrwyr (27,745 o fyfyrwyr) a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe oedd y sefydliad lleiaf cyn iddi uno (5,855).[4] (Gweler nodyn (e) i Dabl 1)
- Prifysgol Caerdydd yw'r uchaf (19$^{eg}$ o blith 122) o Sefydliadau Addysg Uwch Cymru yn nhabl Cynghrair Prifysgolion The Sunday Times, a Phrifysgol Cymru, Casnewydd yw'r isaf (118$^{fed}$ o blith 122).[5]
- Prifysgol Caerdydd yw'r unig SAU yng Nghymru sy'n aelod o grŵp Russell.[6] Grŵp Russell yw 24 prifysgol flaenaf y Deyrnas Unedig sydd wedi ymrwymo i gynnal yr ymchwil gorau un, profiad addysgu a dysgu rhagorol a chysylltiadau digymar â byd busnes a'r sector cyhoeddus.

---

[4] Prifysgol Fetropolitan Abertawe, Historic Moment for Welsh Higher Education as Institutions merge Hydref 2012 [fel ar 11 Mawrth 2013]
[5] The Sunday Times University Guide, Medi 30 2012 [copi caled]
[6] Grŵp Russell, Our Universities [ fel ar 11 Mawrth 2013]

Sylwer:

- Ym mis Hydref 2012, cytunodd Prifysgol y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe i uno gan greu un brifysgol, ond nid oedd yr uno wedi digwydd mewn pryd ar gyfer y flwyddyn 2011/12.[7]
- Mae Prifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg wedi cytuno i uno ym mis Ebrill 2013.[8] Enw'r sefydliad newydd fydd Prifysgol De Cymru. [9]

**Tabl 1: Nifer y myfyrwyr fesul SAU yng Nghymru yn ôl domisil ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12 a safle'r brifysgol ar restr Prifysgolion The Sunday Times 2012.**

| | *Nifer y Myfyrwyr yn 2011/12 yn ôl Domisil* | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Y DU | UE Eraill | Tu allan i'r UE | % y Myfyrwyr o'r tu allan i'r UE | Tabl Cynghrair The Sundey Times |
| Prifysgol Aberystwyth | 11,705 | 9,855 | 1,075 | 775 | 7% | 62 |
| Prifysgol Bangor | 11,255 | 9,215 | 450 | 1,590 | 14% | 74 |
| Prifysgol Caerdydd | 27,745 | 22,440 | 1,070 | 4,235 | 15% | 19 |
| Prifysgol Fetropolitan Caerdydd | 13,005 | 8,925 | 305 | 3,780 | 29% | 109 |
| Prifysgol Morgannwg | 21,190 | 17,800 | 870 | 2,520 | 12% | 92 |
| | | | | | | |
| Prifysgol Glyndŵr | 9,535 | 5,480 | 1,370 | 2,685 | 28% | 106 |
| Prifysgol Cymru Casnewydd | 9,990 | 9,000 | 225 | 760 | 8% | 118 |
| Prifysgol Fetropolitan Abertawe | 5,855 | 5,155 | 155 | 545 | 9% | (a) |
| Prifysgol Abertawe | 14,770 | 12,600 | 365 | 1,805 | 12% | 45 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 6,135 | 5,440 | 140 | 560 | 9% | 107 |
| **Cyfanswm Cymru** | **131,185** | **105,915** | **6,020** | **19,250** | **15%** | |
| | | | | | | |
| **Cyfartaledd SAU Cymru** | **13,119** | **10,592** | **753** | **1,925** | **15%** | |
| **Cyfartaledd SAU Lloegr** | **16,009** | **13,283** | **803** | **1,924** | **12%** | |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Ymchwil gan HESA, 2011/12 - myfyrwyr fesul sefydliad a The Sunday Times University Guide, Medi 30 2012 [copi caled]

Nodyn:

(a) Ni ddarparwyd data am berfformiad i'r Sunday Times,

(b) Mae tabl cynghrair y prifysgolion yn cynnwys 122 o SAU.

(c) Talgrynir y rhifau, felly, nid yw Cyfanswm Cymru yn cyfateb i gyfanswm pob SAU unigol.

(ch) Disgwylir y diweddariad nesaf a fydd yn cynnwys data 2012/13 ym mis Ionawr 2014.

(d) Ym mis Hydref 2012, cytunodd Prifysgol y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe i uno i ffurfio un brifysgol ond nid oedd yr uno wedi digwydd mewn pryd ar gyfer y flwyddyn 2011/12.

(dd) Mae Prifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg wedi cytuno i uno o fis Ebrill 2013 ymlaen.

---

[7] Prifysgol Fetropolitan Abertawe, Historic Moment for Welsh Higher Education as Institutions merge Hydref 2012 [fel ar 11 Mawrth 2013]

[8] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Y Gweinidog Addysg a Sgiliau), Ad-drefnu Addysg Uwch, Datganiad Llafar y Cabinet, 6 Tachwedd 2012 [fel ar 11 Mawrth 2013]

[9] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Y Gweinidog Addysg a Sgiliau), Ad-drefnu Addysg Uwch Yn Ne-Ddwyrain Cymru, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 21 Mawrth 2013 [fel ar 21 Mawrth 2013]

## 3.2. *Y nifer a gofrestrwyd fesul pwnc yn 2011/12*

Bydd HESA yn darparu data am nifer y myfyrwyr mewn SAU yng Nghymru fesul pwnc. Mae Tabl 2 yn dangos data ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12. Dyma'r prif bwyntiau sy'n codi ynddo:

- Cofrestrwyd oddeutu 70 y cant o fyfyrwyr i astudio ar gwrs amser llawn.
- Cofrestrwyd y ganran fwyaf o fyfyrwyr ym maes astudiaethau busnes a gweinyddol – 16 y cant.
- Cofrestrwyd y ganran leiaf o fyfyrwyr ar gyrsiau amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig – llai nag un y cant.
- Nid oes dim cyrsiau milfeddygaeth yn SAU Cymru.
- Cofrestrwyd ychydig dros chwarter y myfyrwyr is-raddedig amser llawn ar gyrsiau gwyddorau biolegol neu gyrsiau astudiaethau busnes a gweinyddol.
- Cyrsiau addysg a ddenodd y ganran fwyaf o is-raddedigion rhan-amser.
- Roedd bron traean o fyfyrwyr ôl-raddedig SAU Cymru yn astudio ar gyrsiau astudiaethau busnes a gweinyddol.

**Tabl 2: Nifer y myfyrwyr a gofrestrwyd yn SAU Cymru yn 2011/12 fesul pwnc ac yn ôl dull astudio.**

| | Is-raddedigion | | Ôl-raddedigion | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Amser Llawn | Rhan-Amser | Amser Llawn | Rhan-Amser | |
| Meddygaeth a deintyddiaeth | 2,125 | 60 | 280 | 1,770 | 4,235 |
| Pynciau cysylltiedig â meddygaeth | 7,235 | 3,045 | 615 | 1,815 | 12,710 |
| Gwyddorau biolegol | 10,120 | 405 | 1,225 | 720 | 12,470 |
| Milfeddygaeth | - | - | - | - | - |
| Amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig | 780 | 140 | 110 | 80 | 1,110 |
| Gwyddorau ffisegol | 4,325 | 365 | 700 | 75 | 5,465 |
| Gwyddorau mathemategol | 1,160 | 20 | 110 | 15 | 1,305 |
| Cyfrifiadureg | 3,185 | 710 | 605 | 150 | 4,650 |
| Peirianneg a thechnoleg | 5,560 | 2,535 | 1,195 | 285 | 9,575 |
| Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio | 1,105 | 1,085 | 335 | 190 | 2,715 |
| Astudiaethau cymdeithasol | 6,040 | 1,810 | 840 | 450 | 9,140 |
| Y Gyfraith | 3,480 | 70 | 740 | 340 | 4,630 |
| Astudiaethau busnes a gweinyddol | 10,130 | 2,365 | 5,520 | 3,520 | 21,535 |
| Cyfathrebu torfol a dogfennaeth | 1,895 | 265 | 485 | 435 | 3,080 |
| Ieithoedd | 5,165 | 2,615 | 480 | 300 | 8,560 |
| Astudiaethau hanesyddol ac athronyddol | 3,300 | 695 | 255 | 560 | 4,810 |
| Celfyddydau creadigol a dylunio | 7,845 | 570 | 520 | 545 | 9,480 |
| Addysg | 4,160 | 5,055 | 1,490 | 1,410 | 12,115 |
| Cyfun | 90 | 3,530 | - | - | 3,620 |
| **Pob Pwnc** | **77,700** | **25,335** | **15,495** | **12,655** | **131,185** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau ymchwil gan HESA, **Tabl 3a - Myfyrwyr a gofrestrwyd ar gyrsiau AU yn ôl lefel yr astudiaeth, maes pwnc, dull astudio a lleoliad y SAU 2011/12**

Nodyn:

(a) Talgrynir 1, 2 i 0. Bydd pob rhif arall yn cael ei dalgrynu i fyny neu i lawr i'r lluosydd agosaf o 5.


(b) Disgwylir y diweddariad nesaf a fydd yn cynnwys data 2012/13 ym mis Ionawr 2014.

(c) Mae HESA wedi diffinio pedwar maes pwnc ar bymtheg ar sail codau'r System Cyd-Godio Pynciau Academaidd (JACS) (www.hesa.ac.uk/jacs2) er mwyn cyflwyno gwybodaeth fesul pwnc. Os bydd myfyriwr yn astudio cyfuniad o bynciau, defnyddir gweithdrefn dosrannu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu ystadegau am Gymru drwy gyfrwng **StatsCymru** ac mae ffigur 1 yn dangos canran yr is-raddedigion blwyddyn gyntaf amser llawn sy'n hanu o Gymru a gofrestrwyd, fesul pwnc ac yn ôl rhyw yn SAU y Deyrnas Unedig yn 2011/12. Dyma'r prif bwyntiau sy'n codi yn Ffigur 1:

- Bydd oddeutu 40 y cant o fenywod yn cofrestru ar gyfer pynciau gwyddonol o'i gymharu ag oddeutu 55 y cant o wrywod.
- Ar ôl pynciau sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth, y categorïau mwyaf nesaf ar gyfer gwrywod yw astudiaethau busnes a gweinyddol (oddeutu 11 y cant) a'r celfyddydau creadigol a dylunio (oddeutu 10 y cant).
- Ar ôl pynciau sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth, y categorïau mwyaf nesaf ar gyfer menywod yw'r celfyddydau creadigol a dylunio (oddeutu 12 y cant); astudiaethau cymdeithasol (11 y cant) ac addysg (11 y cant).

**Ffigur 1: Is-raddedigion blwyddyn gyntaf amser llawn sy'n hanu o Gymru fesul pwnc ac yn ôl rhyw yn SAU y Deyrnas Unedig yn 2011/12**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil gan ddefnyddio StatsCymru **EDUC0101 Nifer y myfyrwyr AU sy'n hanu o Gymru a gofrestrwyd mewn sefydliadau AU yn y DU yn ôl pwnc, lefel a dull astudio**

Nodyn:

(a) Bydd 0,1,2 yn cael eu talgrynu i 0. Bydd pob rhif arall yn cael ei dalgrynu i fyny neu i lawr i'r lluosydd agosaf o 5.

(b) Disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Chwefror 2014 (amodol).


(c) Mae HESA wedi diffinio pedwar maes pwnc ar bymtheg ar sail codau JACS (www.hesa.ac.uk/jacs2) er mwyn cyflwyno gwybodaeth fesul pwnc. Os bydd myfyriwr yn astudio cyfuniad o bynciau, defnyddir gweithdrefn dosrannu.

(ch) Cyfanswm – Mae pynciau gwyddonol yn cynnwys yr holl feysydd pwnc a ganlyn: Meddygaeth a deintyddiaeth; pynciau cysylltiedig â meddygaeth, gwyddorau biolegol; milfeddygaeth; amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig; gwyddorau ffisegol; gwyddorau mathemategol; gwyddor gyfrifiadurol; peirianneg a thechnegol a hefyd pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio (h.y. cyfanswm codau JACS A i K gan gynnwys y rheini).

## 3.3. *Y nifer a gofrestrwyd yn SAU Cymru yn ôl domisil, lefel a dull astudio.*

Cyfrifwyd Ffigur 2 ar sail data HESA ac mae'n dangos tueddiadau cofrestru yn SAU Cymru rhwng 2007/08 a 2011/12. Er bod nifer y myfyrwyr a gofrestrwyd drwyddi draw yn SAU Cymru wedi cynyddu 5 y cant[10] rhwng 2007/08 a 2011/12, mae ffigur 2 yn dangos gostyngiad o bron 30 y cant yn nifer yr is-raddedigion rhan-amser a gofrestrwyd dros yr un cyfnod.

**Ffigur 2: Nifer y myfyrwyr a gofrestrwyd yn SAU Cymru yn ôl dull astudio yn ystod y pum mlynedd 2007/08 i 2011/12**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r gwasanaeth ymchwil ar sail gwybodaeth gan HESA, **Tablau data Myfyrwyr a Chymhwyswyr**, Tablau myfyrwyr fesul sefydliad 2007/08, 2008/09, 2009/10, 2010/11 a 2011/12

Nodyn:

(a) Mae'r saethau yn dangos y newidiadau rhwng 2007/08 a 2011/12

---

[10]Cofrestrwyd 125,540 o fyfyrwyr yn 2007/08 o'u cymharu â 131,185 yn 2011/12. Data o gyfrifiadau'r gwasanaeth ymchwil ar sail gwaith HESA, Ystadegau diweddaraf 2011/12 am fyfyrwyr a chymhwyswyr **Tablau data Myfyrwyr a Chymhwyswyr**, myfyrwyr fesul sefydliad [fel ar 8 Mawrth 2013]

Mae Tabl 3, sydd wedi'i gyfrifo ar sail gwybodaeth StatsCymru, yn dangos canran y myfyrwyr a gofrestrwyd yn SAU Cymru yn 2011/12 yn ôl domisil, lefel a dull astudio.

Dyma'r prif bwyntiau sy'n codi yn Nhabl 3:

- Mae ychydig dros 50 y cant o'r holl fyfyrwyr a gofrestrwyd yn SAU Cymru yn hanu o Gymru.
- Myfyrwyr sy'n hanu o'r Deyrnas Unedig yw ychydig dros 80 y cant o'r myfyrwyr a gofrestrwyd yn SAU Cymru.
- Is-raddedigion amser llawn yw'r gyfran fwyaf o'r rheini a gofrestrwyd, sef bron 60 y cant o'r holl fyfyrwyr a gofrestrwyd yn SAU Cymru.
- Ôl-raddedigion rhan-amser yw'r gyfran leiaf o'r rheini a gofrestrwyd, sef bron 10 y cant o'r holl fyfyrwyr a gofrestrwyd yn SAU Cymru.

**Tabl 3: Nifer y myfyrwyr a gofrestrwyd yn 2011/12 yn SAU Cymru yn ôl domisil, lefel a dull astudio**

| | Is-raddedigion | | Ôl-raddedigion | | Nifer o Bob Dull |
|---|---|---|---|---|---|
| Domisil | Amser-Llawn | Rhan Amser ac Eraill | Amser Llawn | Rhan-Amser ac Eraill | Pob Lefel |
| Cymru | 36,065 | 20,315 | 4,310 | 6,225 | 66,920 |
| Y DU Arall | 31,215 | 2,275 | 2,300 | 3,200 | 38,995 |
| UE Arall | 2,760 | 1,535 | 1,095 | 630 | 1,725 |
| Tramor Arall | 7,655 | 1,205 | 7,785 | 2,600 | 19,255 |
| Cyfanswm | 77,700 | 25,335 | 15,495 | 12,655 | 131,185 |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau ymchwil ar sail gwybodaeth gan StatsCymru, [EDUC0109] Nifer y myfyrwyr AU a gofrestrwyd yn SAU Cymru yn ôl domisil, lefel a dull astudio

Nodyn:

(a) Rhaglenni astudio i ôl-raddedigion yw'r rheini sy'n arwain at raddau uwch, diplomâu a thystysgrifau ac fel rheol, bydd gofyn i'r rhai sy'n dechrau rhaglen o'r fath fod wedi cael cymhwyster ar lefel gradd eisoes.

(b) Mae rhaglenni astudio i is-raddedigion yn cynnwys graddau cyntaf, Graddau Sylfaen, diplomâu AU, y Diploma Cenedlaethol Uwch (HND), y Dystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC), ac ati.

(c) Mae gofyn i fyfyrwyr amser llawn fynychu eu cwrs am o leiaf 24 wythnos yn ystod blwyddyn y rhaglen a hynny ar gyfartaledd am o leiaf 21 awr yr wythnos. Mae'n cynnwys y rheini sydd ar gwrs rhyngosod trwchus neu denau, a'r rheini sy'n treulio blwyddyn y tu allan i'r sefydliad sy'n gysylltiedig â'u hastudiaeth.

(ch) Cofnodir bod myfyrwyr rhan-amser yn astudio'n rhan-amser, neu ar gyrsiau amser llawn sy'n para llai na 24 wythnos. Mae hyn yn cynnwys hefyd y myfyrwyr hynny sy'n dilyn cyrsiau AB dan drefniant cyflwyno parhaus.

(d) Disgwylir y diweddariad nesaf i'r data ym mis Chwefror 2014.

## 3.4. *Llifau myfyrwyr dros y ffin yn y Deyrnas Unedig (cofrestriadau HESA)*

Mae Tabl 4 a gyfrifwyd ar sail data HESA yn dangos faint o is-raddedigion ac ôl-raddedigion blwyddyn gyntaf sy'n hanu o'r Deyrnas Unedig a gofrestrwyd yn SAU y Deyrnas Unedig yn 2011/12 yn ôl dull astudio.

Dyma'r prif bwyntiau sy'n codi yn Nhabl 4:

- Cofrestrwyd 67 y cant o'r is-raddedigion a'r ôl-raddedigion blwyddyn gyntaf amser llawn sy'n hanu o Gymru mewn SAU yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â'r sefyllfa yn Lloegr lle bydd 96% o fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr yn cofrestru mewn SAU yn Lloegr.
- Cofrestrwyd 33 y cant o is-raddedigion ac ôl-raddedigion blwyddyn gyntaf amser llawn sy'n hanu o Gymru mewn SAU yn Lloegr. [11]

**Tabl 4: Nifer yr is-raddedigion ac ôl-raddedigion blwyddyn gyntaf sy'n hanu o'r Deyrnas Unedig a gofrestrwyd ar gyrsiau AU yn ôl dull astudio, domisil a lleoliad y SAU 2011/12**

| | Lleoliad y Sefydliad AU | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Domisil | Lloegr | Cymru | yr Alban | Gogledd Iwerddon | Canran y myfyrwyr sy'n mynychu sefydliad yn y wlad y maent â'u domisil ynddi | Y Brifysgol Agored | Cyfanswm |
| **Llawnamser** | | | | | | | |
| Lloegr | 422,990 | 13,210 | 4,810 | 310 | 96% | 55 | 441,375 |
| Cymru | 7,720 | 15,750 | 140 | 10 | 67% | 0 | 23,620 |
| Yr Alban | 2,810 | 105 | 34,880 | 25 | 92% | 10 | 37,830 |
| Gogledd Iwerddon | 4,470 | 225 | 1,245 | 10,800 | 65% | 0 | 16,740 |
| **Cyfanswm** | 437,990 | 29,290 | 41,075 | 11,145 | | 65 | 519,565 |
| **Rhan amser** | | | | | | | |
| Lloegr | 215,035 | 2,540 | 2,545 | 580 | 97% | 72,230 | 292,930 |
| Cymru | 2,715 | 17,215 | 115 | 25 | 86% | 4,450 | 24,520 |
| Yr Alban | 2,605 | 80 | 19,130 | 50 | 87% | 7,850 | 29,720 |
| Gogledd Iwerddon | 1,085 | 35 | 125 | 7,010 | 85% | 2,200 | 10,450 |
| **Cyfanswm** | **221,440** | **19,870** | **21,915** | **7,665** | | **86,730** | **357,620** |

Ffynhonnell: HESA **Tabl 4 – myfyrwyr blwyddyn gyntaf yn hanu o'r DU a gofrestrwyd ar gyrsiau AU yn ôl lefel a dull astudio, domisil a lleoliad y SAU** 2010/11 a 2011/12

Nodyn:


(a) Dyrennir sefydliad i ranbarth daearyddol drwy gyfeirio at ganolfan weinyddol y sefydliad. Efallai y bydd rhai myfyrwyr wedi'u cofrestru mewn sefydliadau sy'n astudio mewn rhanbarthau sy'n wahanol i'r rhanbarth lle mae canolfan weinyddol y sefydliad. Mae'r Brifysgol Agored yn cael ei hystyried yn sefydliad sy'n gyfan gwbl yn Lloegr. Mae'r ganolfan weinyddol yn Lloegr, er bod y Brifysgol Agored yn addysgu ledled y Deyrnas Unedig.

(b) Disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Ionawr 2014.

[11] 7,720 o fyfyrwyr o blith 23,620.

Cyfrifwyd Ffigur 3 ar sail data gan StatsCymru ac mae'n dangos canran yr is-raddedigion blwyddyn gyntaf amser llawn sy'n mynychu sefydliad yn eu gwlad eu hunain. Mae'n dangos bod gostyngiad wedi bod yng Nghymru o 72 y cant yn 2007/08 i 66 y cant yn 2011/12 o'i gymharu â'r sefyllfa yn Lloegr ac yn yr Alban sydd wedi cynnal lefelau o 96 y cant a 94 y cant, yn y drefn honno, dros yr un cyfnodau.

**Ffigur 3: Is-raddedigion blwyddyn gyntaf, amser llawn a oedd yn mynychu sefydliad yn eu gwlad eu hunain rhwng 2007/08 a 2011/12**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau ymchwil gan StatsCymru **EDUC0037 Myfyrwyr addysg uwch amser llawn sy'n llifo dros y ffin yn ôl lefel, domisil, blwyddyn astudio a lleoliad y sefydliad**

Nodyn:

(a) Nid yw'r niferoedd a ddefnyddir yn y ffigur yn cynnwys y nifer fach o fyfyrwyr na wyddys o ble y maent yn hanu yn y Deyrnas Unedig.

(b) Mae'r Brifysgol Agored yn cael ei hystyried yn sefydliad sy'n gyfan gwbl yn Lloegr. Mae'r ganolfan weinyddol yn Lloegr, er bod y Brifysgol Agored yn addysgu ledled y Deyrnas Unedig.

(c) Disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Ionawr 2014.

## *3.5. Ceisiadau diweddar gan fyfyrwyr (ceisiadau UCAS)*

Bydd UCAS yn cyhoeddi data am niferoedd y ceisiadau i Brifysgolion y Deyrnas Unedig. Ym mis Ionawr 2013, cyhoeddwyd data gan UCAS ar gyfer dyddiad cau 15 Ionawr cylch 2013. **Ynglŷn â'r cylch, dywed UCAS:**

> Bydd pobl sy'n cyflwyno'u ceisiadau i UCAS erbyn dyddiad cau 15 Ionawr yn cael eu hystyried yn ymgeiswyr 'mewn pryd' ar gyfer y rhan fwyaf helaeth o'r cyrsiau. **Ymgeiswyr mewn pryd yw'r rhan fwyaf (rhyw 85 y cant) o'r holl ymgeiswyr sy'n hanu o'r DU mewn cylch a'r holl ymgeiswyr 18 oed bron iawn (rhyw 97) sy'n hanu o'r DU.** Gellir defnyddio'r niferoedd hyn i fesur tueddiadau yn y galw am y math hwn o addysg uwch.[12]

**Dylid nodi mai lefelau'r ceisiadau yw'r niferoedd hyn, nid y nifer sy'n cael eu derbyn yn y pen draw.**

Mae Tabl 5 yn dangos yr ymgeiswyr erbyn y dyddiad cau 15 Ionawr 2013 yn ôl gwlad hanu yn y Deyrnas Unedig ar gyfer cylch 2013 a bod nifer yr ymgeiswyr o'r Deyrnas Unedig wedi cynyddu 2.8 y cant drwyddi draw er bod nifer y ceisiadau o fewn y ganran honno wedi cynyddu fel a ganlyn mewn tair gwlad yn y Deyrnas Unedig. Lloegr (+ 3 y cant), Gogledd Iwerddon (+7.1 y cant), Yr Alban (+ 2.0 y cant) **a gostyngiad yng Nghymru (-2.1 y cant).**

**Tabl 5: Ymgeiswyr erbyn dyddiad cau 15 Ionawr 2013 yn ôl gwlad hanu yn y Deyrnas Unedig ar gyfer cylch 2013**

| Yn ôl gwlad yn y DU | 2012 | 2013 | Gwah (+/-) | Gwah (%) |
|---|---|---|---|---|
| Lloegr | 384,170 | 395,608 | 11,438 | 3.0% |
| Gogledd Iwerddon | 18,292 | 19,587 | 1,295 | 7.1% |
| Yr Alban | 39,169 | 39,954 | 785 | 2.0% |
| Cymru | 20,876 | 20,438 | -438 | -2.1% |
| **Cyfanswm** | **462,507** | **475,587** | **13,080** | **2.8%** |

Ffynhonnell: UCAS, ffigurau ymgeiswyr cylch 2013 – dyddiad cau Ionawr, Tabl 4b: ymgeiswyr yn ôl gwlad hanu yn y Deyrnas Unedig, 30 Ionawr 2013

Nodyn:

(a) Bydd pob ymgeisydd yn cyfrif hyd at 1 ar gyfer pob 'gwlad sefydliad'.

(b) Os bydd dewisiadau ymgeisydd yn cynnwys mwy nag un wlad, yna cyfrifir yr ymgeisydd unwaith ym mhob 'gwlad sefydliad' sy'n bresennol.

(c) Nid yw'n cynnwys myfyrwyr eraill yr Undeb Ewropeaidd na myfyrwyr o'r tu allan i'r UE.

[12] UCAS, UK Application rates by country, sex, age and background (2013 Cycle, January deadline), 30 Ionawr [fel ar 11 Mawrth 2013]

Mae Tabl 6 isod yn dangos cyfanswm yr ymgeiswyr yn ôl gwlad hanu ac yn ôl gwlad y sefydliad ar gyfer cylch 2013. Mae'r tabl yn dangos bod:

- Cyfanswm nifer yr ymgeiswyr ym mis Ionawr 2013 yn uwch ym mhob un o SAU y Deyrnas Unedig o'i gymharu â'r un adeg yn 2012 ac mai yn SAU Cymru y gwelwyd y cynnydd mwyaf, sef 7.3 y cant o'i gymharu â 3.5 y cant yn Lloegr.
- Mae nifer sy'n hanu o Gymru a wnaeth gais i SAU ym mhob un o wledydd y DU wedi **gostwng**.

**Tabl 6: Cyfanswm yr ymgeiswyr erbyn dyddiad cau 15 Ionawr 2013 yn ôl domisil a gwlad y sefydliad ar gyfer cylch 2013**

| Domisil yr Ymgeisydd | | Gwlad y Sefydliad: Lloegr | Gogledd Iwerddon | Yr Alban | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| Lloegr | 2013 | 394,893 | 2,262 | 28,133 | 39,863 |
| | 2012 | 383,562 | 2,087 | 24,519 | 36,195 |
| | % newid | 3.0% | 8.4% | 14.7% | 10.1% |
| Gogledd Iwerddon | 2013 | 10,070 | 17,353 | 6,014 | 1,122 |
| | 2012 | 9,536 | 16,171 | 5,128 | 935 |
| | % newid | 5.6% | 7.3% | 17.3% | 20.0% |
| Yr Alban | 2013 | 4,084 | 163 | 39,358 | 185 |
| | 2012 | 3,975 | 169 | 38,559 | 190 |
| | % newid | 2.7% | -3.6% | 2.1% | -2.6% |
| Cymru | 2013 | 14,896 | 81 | 804 | 16,176 |
| | 2012 | 14,978 | 86 | 838 | 16,623 |
| | % newid | -0.5% | -5.8% | -4.1% | -2.7% |
| UE Arall | 2013 | 31,138 | 1,847 | 17,768 | 3,425 |
| | 2012 | 29,740 | 1,879 | 16,902 | 3,086 |
| | % newid | 4.7% | -1.7% | 5.1% | 11.0% |
| Tu allan i'r UE | 2013 | 44,281 | 639 | 11,142 | 4,177 |
| | 2012 | 40,521 | 514 | 10,418 | 3,498 |
| | % newid | 9.3% | 24.3% | 6.9% | 19.4% |
| Cyfanswm | 2013 | 499,362 | 22,345 | 103,219 | 64,948 |
| | 2012 | 482,312 | 20,906 | 96,364 | 60,527 |
| | % newid | 3.5% | 6.9% | 7.1% | 7.3% |

Ffynhonnell: UCAS, ffigurau ymgeiswyr cylch 2013 - dyddiad cau Ionawr, Tabl 4f: cyfanswm yr ymgeiswyr yn ôl gwlad hanu a gwlad y sefydliad, 30 Ionawr 2013

Nodyn:

(a) Bydd pob ymgeisydd yn cyfrif hyd at 1 ar gyfer pob 'gwlad sefydliad'.

(b) Os bydd dewisiadau ymgeisydd yn cynnwys mwy nag un wlad, yna cyfrifir yr ymgeisydd unwaith ym mhob 'gwlad sefydliad' sy'n bresennol, a dyma pam mae'r niferoedd yn fwy nag y maent yn nhabl 5 sy'n nodi nifer yr ymgeiswyr yn unig.

# 4. Staffio yn SAU Cymru

Bydd HESA yn cyhoeddi data am lefelau staffio SAU y Deyrnas Unedig. Mae Tabl 7 yn dangos yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am niferoedd y staff academaidd ac anacademaidd yn SAU Cymru yn 2011/12. Dyma'r prif bwyntiau sy'n codi yn Nhabl 7:

- Ar gyfartaledd yn SAU Cymru, y gymhareb rhwng staff anacademaidd a staff academaidd yw 1.3 o'i chymharu â'r sefyllfa yn Lloegr lle mae cymhareb y ddau fath o staff yn gytbwys.
- Ac eithrio swyddogaethau canolog Prifysgol Cymru, ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant y mae'r gymhareb uchaf rhwng staff anacademaidd a staff academaidd, sef 1.6 ac ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe y mae'r gymhareb isaf, lle mae cymhareb y ddau fath o staff yn gytbwys.
- Ar gyfartaledd, mae gan SAU Cymru 6.5 o fyfyrwyr ar gyfer pob aelod o'r staff o'i gymharu â 6.7 yn Lloegr.
- Ym Mhrifysgol Glyndŵr y mae'r gymhareb myfyrwyr/staff ar ei huchaf, sef 12.9 ac ym Mhrifysgol Caerdydd y mae'r gymhareb ar ei hisaf, sef 4.7.

**Tabl 7: Nifer y staff a chymarebau myfyrwyr/staff yn SAU Cymru yn 2011/12**

| SAU | Staff Academaidd | Staff anacademaidd | Cymhareb Staff Academaidd: Anacademaidd | Myfyrwyr | Cymhareb myfyrwyr: cyfanswm y staff |
|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | 900 | 1,315 | 1.5 | 11,705 | 5.3 |
| Prifysgol Bangor | 930 | 1,195 | 1.3 | 11,255 | 5.3 |
| Prifysgol Caerdydd | 2,705 | 3,240 | 1.2 | 27,745 | 4.7 |
| Prifysgol Fetropolitan Caerdydd | 565 | 890 | 1.6 | 13,005 | 8.9 |
| Prifysgol Morgannwg | 1,270 | 1,395 | 1.1 | 21,190 | 8.0 |
| Prifysgol Glyndŵr | 340 | 400 | 1.2 | 9,535 | 12.9 |
| Prifysgol Cymru Casnewydd | 425 | 520 | 1.2 | 9,990 | 10.6 |
| Prifysgol Fetropolitan Abertawe | 355 | 360 | 1.0 | 5,855 | 8.2 |
| Prifysgol Abertawe | 1,165 | 1,385 | 1.2 | 14,770 | 5.8 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 245 | 395 | 1.6 | 6,135 | 9.6 |
| Prifysgol Cymru (swyddogaethau canolog) | 35 | 155 | 4.4 | .. | .. |
| **Cyfanswm Cymru** | **8,925** | **11,245** | **1.3** | **131,185** | **6.5** |
| **Cyfanswm Lloegr** | **152,630** | **159,980** | **1.0** | **2,097,230** | **6.7** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau ymchwil gan HESA, Tablau Data Staff, Lefel Sefydliad, 2011/12 a HESA, 2011/12 myfyrwyr fesul sefydliad.

Nodyn:

(a) Talgrynir 0, 1, 2 i 0. Bydd pob rhif arall yn cael ei dalgrynu i fyny neu i lawr at y lluosydd agosaf o 5.

(b) Mae'r myfyrwyr yn cynnwys cyfanswm y myfyrwyr AU yn y sefydliad.

(c) Mae Lloegr yn cynnwys myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn y Brifysgol Agored.

(ch) Disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Ionawr 2014.

(d) Nid yw staff sydd wedi'u cyflogi o dan gontractau ymgynghori, neu ar sail talu ffioedd am wasanaethau ond sydd heb gontract cyflogaeth, wedi'u cynnwys yn y tabl hwn.

(dd) Diffinnir staff academaidd fel gweithwyr proffesiynol academaidd sy'n gyfrifol am gynllunio, cyfarwyddo a gwneud gwaith addysgu ac ymchwil academaidd mewn sefydliadau addysg uwch (SAU). Maent hefyd yn cynnwys is-gangellorion, ymarferwyr meddygol, deintyddion, milfeddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n gwneud gwaith darlithio neu ymchwil.

(e) Diffinnir staff anacademaidd fel y rheini nad oes ganddynt swyddogaeth academaidd wrth eu gwaith. Maent yn cynnwys rheolwyr, gweithwyr proffesiynol anacademaidd, gweithwyr lles myfyrwyr, staff ysgrifenyddol, gofalwyr a glanhawyr.

(f) Nid yw staff annodweddiadol wedi cael eu cynnwys yn niferoedd y staff. Staff annodweddiadol yw'r aelodau hynny o'r staff y mae eu contractau'n golygu nad yw trefniadau gweithio'n rhai parhaol, rhai lle mae'r berthynas gyflogi'n gymhleth a/neu rai sy'n cynnwys gwaith y tu allan i drefniadau goruchwylio'r darparwr gwaith arferol.

## 5. Ehangu cyfranogaeth (y cyfeirir ato hefyd fel ehangu mynediad)

Bydd HESA yn cyhoeddi gwybodaeth ynghylch cyfranogaeth grwpiau penodol sydd heb eu cynrychioli'n deg ym maes AU o'u cymharu â'r boblogaeth AU drwyddi draw. Ar gyfer 2011/12 y mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael ac mae tabl 8 yn edrych ar ganran y myfyrwyr ifanc amser llawn sydd o ddosbarthiadau 4 i 7 yn Nosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol yr Ystadegau Gwladol (NS-SEC) o'u cymharu â'r rheini sydd yn nosbarthiadau 1 i 7 NS-SEC ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12. (Diffinnir y dosbarthiadau hyn yn y nodiadau sydd gyda'r tabl). Mae'r tabl yn dangos:

- bod 29 y cant o'r myfyrwyr ifanc gradd gyntaf amser llawn y mae data ar gael ar eu cyfer yn SAU Cymru yn dod o ddosbarthiadau 4-7 NS-SEC, o'i gymharu â 31 y cant yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw.
- O blith SAU Cymru, mai Prifysgol Glyndŵr sy'n denu'r ganran fwyaf o'u myfyrwyr ifanc gradd gyntaf amser llawn o ddosbarthiadau NS-SEC 4-7, sef 42 y cant.
- O blith SAU Cymru, mai Prifysgol Caerdydd sy'n denu'r ganran leiaf o fyfyrwyr ifanc gradd gyntaf amser llawn o ddosbarthiadau 4-7 NS-SEC, sef 20 y cant. Mae hyn yn is na'r sefyllfa yng Nghymru (sef 29 y cant) a'r Deyrnas Unedig drwyddi draw.

**Tabl 8 Myfyrwyr ifanc gradd gyntaf amser llawn yn ôl dynodydd dosbarth NS-SEC 4-7 yn 2011/12**

| | Nifer Myfyrwyr | | | O ddosbarthiadau 4-7 NS-SEC | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm yn cofrestru am radd gyntaf amser llawn | Nifer sy'n ifanc | Canran sy'n ifanc | Nifer â data amdanynt | Canran sy'n ifanc â data amdanynt | Nifer o ddosbarthiadau 4-7 NS-SEC | Canran o ddosbarthiadau 4-7 NS-SEC |
| Prifysgol Aberystwyth | 2,570 | 2,300 | 90 | 1,865 | 81 | 510 | 27 |
| Prifysgol Bangor | 2,055 | 1,680 | 82 | 1,375 | 82 | 420 | 31 |
| Prifysgol Caerdydd | 4,470 | 3,910 | 87 | 3,325 | 85 | 655 | 20 |
| Prifysgol Fetropolitan Caerdydd | 2,155 | 1,755 | 81 | 1,485 | 85 | 485 | 33 |
| Prifysgol Morgannwg | 3,590 | 2,805 | 78 | 2,170 | 78 | 755 | 35 |
| Prifysgol Glyndŵr | 935 | 430 | 46 | 265 | 62 | 110 | 42 |
| Prifysgol Cymru Casnewydd | 1,335 | 890 | 67 | 685 | 77 | 275 | 40 |
| Prifysgol Fetropolitan Abertawe | 1,070 | 805 | 75 | 625 | 78 | 250 | 40 |
| Prifysgol Abertawe | 2,930 | 2,405 | 82 | 1,950 | 81 | 480 | 25 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 1,140 | 875 | 77 | 660 | 75 | 250 | 38 |
| **Cyfanswm Cymru** | **22,260** | **17,855** | **80** | **14,410** | **81** | **4,190** | **29** |
| **Cyfanswm y DU** | **389,155** | **309,970** | **80** | **255,550** | **82** | **78,410** | **31** |

Ffynhonnell: HESA T1a: Myfyrwyr ifanc gradd gyntaf amser llawn yn ôl dynodydd ysgol y wladwriaeth, dynodydd NS-SEC (ac eithrio 2008/09) a dynodydd cyfranogaeth isel.

Nodyn:

(a) Talgrynir 0, 1, 2 i 0. Bydd pob rhif arall yn cael ei dalgrynu i fyny neu i lawr at y lluosydd agosaf o 5.

(b) Myfyrwyr ifanc yw'r rheini sydd o dan 21 oed.

(c) Y dangosydd perfformiad yw cyfran y myfyrwyr o ddosbarthiadau 4 i 7 o Ddosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol yr Ystadegau Gwladol o blith y rheini sy'n dod o ddosbarthiadau 1 i 7 NS-SEC. Dyma'r dosbarthiadau:


- 1 Galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch
- 2 Galwedigaethau rheoli a phroffesiynol is
- 3 Galwedigaethau canolraddol
- 4 Cyflogwyr bach a gweithwyr hunangyfrif
- 5 Galwedigaethau goruchwyliol a thechnegol is
- 6 Galwedigaethau lled reolaidd
- 7 Galwedigaethau rheolaidd

(ch) Disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Mawrth 2014.

Mae Ffigur 4 yn dangos niferoedd a chanran y myfyrwyr ifanc amser llawn o gymdogaethau isel eu cyfranogaeth yn 2011/12. (Diffinnir cymdogaethau isel eu cyfranogaeth yn y nodiadau sydd gyda'r tabl). Mae'r ffigur yn dangos:

- Bod oddeutu 12 y cant o fyfyrwyr ifanc y mae data ar gael ar eu cyfer yn SAU Cymru yn dod o gymdogaethau isel eu cyfranogaeth.
- O blith SAU Cymru, ym Mhrifysgol Caerdydd y mae'r ganran isaf (7 y cant) o fyfyrwyr ifanc amser llawn sy'n dod o gymdogaethau isel eu cyfranogaeth.
- O blith SAU Cymru, ym Mhrifysgol Glyndŵr y mae'r ganran uchaf (25 y cant) o fyfyrwyr ifanc amser llawn sy'n dod o gymdogaethau isel eu cyfranogaeth.

**Ffigur 4: Niferoedd a chanran y myfyrwyr ifanc amser llawn sy'n dod o gymdogaethau isel eu cyfranogaeth yn 2011/12**




Nodyn:

(a) Talgrynir 0, 1, 2 i 0. Bydd pob rhif arall yn cael ei dalgrynu i fyny neu i lawr at y lluosydd agosaf o 5.

(b) Myfyrwyr ifanc yw'r rheini sydd o dan 21 oed.

(c) Ffurfir dosbarthiad POLAR2 drwy raddio wardiau Ystadegau Ardaloedd Cyfrifiad 2001 yn ôl cyfraddau cyfranogaeth pobl ifanc o blith cohortau cyfun 2000 i 2004. Mae hyn yn rhoi pum grŵp cwintil o gyfranogwyr ifanc (qYPR) o'r ardaloedd a roddir yn eu trefn gan ddechrau gydag '1' (y wardiau lle mae'r gyfranogaeth ar ei hisaf) i '5' (y wardiau hynny lle mae'r gyfranogaeth ar ei huchaf), mae pob un yn cynrychioli 20 y cant o gohort ifanc y DU. Mae myfyrwyr wedi cael eu dyrannu i gymdogaethau ar sail eu cod post. Mae'r myfyrwyr hynny sydd â chod post yn y wardiau lle mae'r gyfranogaeth isaf (cwintil 1) yn cael eu dynodi'n fyfyrwyr o gymdogaeth isel ei chyfranogaeth.


(ch) Disgwylid y diweddariad nesaf ddiwedd Mawrth 2014.

## 6. Cyrchfan myfyrwyr

Bydd HESA yn cyhoeddi gwybodaeth am gyrchfan myfyrwyr sy'n ennill cymwysterau addysg uwch. Mae hyn yn darparu gwybodaeth am weithgareddau myfyrwyr ar ôl iddynt adael un o SAU y Deyrnas Unedig, a cheir y wybodaeth hon drwy gynnal arolwg chwe mis ar ôl i fyfyrwyr adael y SAU.

Mae'r data diweddaraf a gyhoeddir ar gyfer 2010/11 a ffigur 5 yn dangos cyrchfan myfyrwyr gradd gyntaf amser llawn a adawodd SAU Cymru yn y flwyddyn academaidd 2010/11 chwe mis ar ôl iddynt raddio.  Gellir gweld bod 71 y cant o'r myfyrwyr gradd gyntaf amser llawn a adawodd SAU Cymru mewn rhyw fath o swydd, a bod 17 y cant yn parhau i astudio. Tybiwyd bod 9 y cant o'r myfyrwyr a adawodd yn ddi-waith.

**Ffigur 5: Cyrchfan myfyrwyr gradd gyntaf amser llawn a adawodd SAU Cymru, chwe mis ar ôl iddynt raddio, 2010/11**




Ffynhonnell: HESA, Datganiad Ystadegol Cyntaf 178: Cyrchfannau Myfyrwyr a Adawodd Addysg Uwch yn y Deyrnas Unedig yn y Flwyddyn Academaidd 2010/11 2010/11 – tabl 1a

Nodiadau:

(a) Disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Ionawr 2013.

Mae Tabl 9 yn cymharu cyrchfan myfyrwyr gradd gyntaf amser llawn chwe mis ar ôl iddynt raddio ar draws SAU y Deyrnas Unedig yn 2010/11. Mae'r tabl yn dangos bod cyrchfan myfyrwyr gradd gyntaf amser llawn a adawodd SAU yng Nghymru yn adlewyrchu tuedd debyg i honno a welir yn SAU eraill y Deyrnas Unedig.

**Tabl 9: Cyrchfan myfyrwyr gradd gyntaf amser llawn yn ôl eu galwedigaeth ac yn ôl gwlad y Deyrnas Unedig y mae'r SAU ynddi yn 2010/11 (y cant)**

| | SAU Cymru | SAU Lloegr | SAU yr Alban | SAU Gogledd Iwerddon | SAU y DU |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogaeth yn y DU yn unig | 59 | 60 | 60 | 59 | 60 |
| Cyflogaeth dramor yn unig | 3 | 3 | 4 | 5 | 3 |
| Cyfuniad o gyflogaeth ac astudio | 9 | 8 | 8 | 10 | 8 |
| Astudiaeth bellach yn unig | 17 | 16 | 18 | 14 | 16 |
| Ddim ar gael ar gyfer cyflogaeth | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Tybir eu bod yn ddi-waith | 9 | 10 | 7 | 9 | 9 |
| Eraill | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm sydd â chyrchfan hysbys** | **100** | **100** | **100** | **100** | **100** |

Ffynhonnell: HESA, Datganiad Ystadegol Cyntaf 178: Cyrchfan Myfyrwyr a adawodd Addysg Uwch yn y Deyrnas Unedig yn y Flwyddyn Academaidd 2010/11 – tabl 1 ac 1a

Nodyn:

(a) Disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Ionawr 2013.

Mae Tabl 10 yn dangos galwedigaethau'r myfyrwyr gradd gyntaf amser llawn a ddechreuodd mewn swydd yn y **Deyrnas Unedig** yn 2010/11, yn ôl y wlad lle'r oedd y SAU lle buont yn astudio. Mae'r tabl yn dangos:

- Mai canran y myfyrwyr gradd gyntaf amser llawn a adawodd SAU yng Nghymru ac a ddechreuodd weithio mewn swydd broffesiynol oedd yr isaf yn y Deyrnas Unedig yn 2010/11, sef 20 y cant.
- Bod canran y myfyrwyr gradd gyntaf amser llawn a adawodd SAU yng Nghymru a ddechreuodd mewn swyddi rheoli a swyddi uwch swyddogion hefyd yn is na'r cyfartaledd yn y Deyrnas Unedig yn 2010/11, fodd bynnag
- Bod canran y myfyrwyr gradd gyntaf amser llawn a adawodd SAU yng Nghymru ac a ddechreuodd weithio mewn swyddi proffesiynol a thechnegol yn uwch na'r cyfartaledd yn y Deyrnas Unedig, sef 33 y cant.

**Tabl 10: Canran y myfyrwyr gradd gyntaf amser llawn a ddechreuodd weithio mewn swyddi yn y Deyrnas Unedig yn 2010/11, yn ôl gwlad y SAU yn y Deyrnas Unedig**

*Canran y sawl sy'n dechrau gwaith yn syth ar ôl cwblhau eu gradd gyntaf mewn:*

| Galwedigaeth | SAU yn Lloegr | SAU yng Ngogledd Iwerddon | SAU yn yr Alban | SAU yng Nghymru | Pob SAU yn y DU |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheolwyr ac uwch swyddogion | 7 | 5 | 6 | 5 | 7 |
| Galwedigaethau proffesiynol | 24 | 31 | 31 | 20 | 24 |
| Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiol | 32 | 23 | 29 | 33 | 31 |
| Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol | 9 | 7 | 8 | 9 | 9 |
| Galwedigaethau crefft medrus | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 |
| Galwedigaethau gwasanaethau personol | 7 | 6 | 5 | 8 | 6 |
| Galwedigaethau gwerthu a gwasanaethau i gwsmeriaid | 13 | 22 | 13 | 15 | 14 |
| Gweithwyr prosesu, offer a pheiriannau | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| Galwedigaethau elfennol | 7 | 5 | 7 | 9 | 7 |
| Anhysbys | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **100** | **100** | **100** | **100** | **100** |

**Ffynhonnell: HESA,** Datganiad Ystadegol Cyntaf 178: Cyrchfan Myfyrwyr a Adawodd Addysg Uwch yn y Deyrnas Unedig yn y Flwyddyn Academaidd 2010/11


Nodyn:

(a) Disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Ionawr 2013.

Mae Ffigur 6 yn dangos i ba swyddi yn y Deyrnas Unedig yr aeth myfyrwyr a oedd yn gadael SAU yng Nghymru ym mhob blwyddyn academaidd o 2006/07 tan 2010/11. Dyma'r prif bwyntiau sy'n codi yn Ffigur 6:

- Gwelwyd y **gostyngiad** mwyaf yng nghanran y myfyrwyr gradd gyntaf amser llawn a adawodd SAU yng Nghymru ac a ddechreuodd mewn swyddi proffesiynol a swyddi gweinyddol ac ysgrifenyddol rhwng 2006/07 a 2010/11,
- Gwelwyd y **cynnydd** mwyaf yng nghanrannau'r myfyrwyr gradd gyntaf amser llawn a adawodd SAU yng Nghymru rhwng 2006/07 a 2010/11 a oedd wedi dechrau gweithio mewn swyddi gwerthu a gwasanaethu cwsmeriaid a swyddi elfennol.

**Ffigur 6: Canran y myfyrwyr gradd gyntaf amser llawn o SAU Cymru a ddechreuodd weithio mewn swyddi yn y Deyrnas Unedig, 2006/07 i 2010/11**




Ffynhonnell HESA, Datganiad Ystadegol Cyntaf 178: Cyrchfan Myfyrwyr a Adawodd Addysg Uwch yn y Deyrnas Unedig yn y Flwyddyn Academaidd 2010/11 – tabl 4a

Nodyn:

(a) Disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Ionawr 2013.

Mae Tabl 11 yn dangos nifer y myfyrwyr gradd gyntaf amser llawn sy'n hanu o'r DU a adawodd SAU yng Nghymru a oedd mewn swydd **chwe mis ar ôl iddynt raddio**, y nifer a oedd yn dilyn astudiaeth bellach a'r nifer y tybir eu bod yn ddi-waith, yn ôl y pwnc a astudiwyd. **Gellir gweld bod yr holl fyfyrwyr gradd gyntaf amser llawn a oedd yn hanu o'r DU a adawodd SAU yng Nghymru yn 2010/11 ac a fu'n astudio meddygaeth a deintyddiaeth mewn rhyw fath o waith chwe mis ar ôl iddynt raddio.**

**Tabl 11: Nifer y rhai a enillodd gymhwyster gradd gyntaf amser llawn yn SAU Cymru yn ôl y pwnc a astudiwyd a'r gweithgarwch, 2010/11**

| Pwnc a astudiwyd | Mewn cyflogaeth (a) | Astudiaethau pellach | Tybir eu bod yn ddi-waith | Eraill (b) | Cyfanswm a atebodd y cwestiwn |
|---|---|---|---|---|---|
| Meddygaeth a deintyddiaeth | 365 | 0 | 0 | 0 | 365 |
| Pynciau cysylltiedig â meddygaeth | 1,185 | 45 | 40 | 25 | 1,295 |
| Gwyddor fiolegol | 1,220 | 440 | 150 | 85 | 1,895 |
| Amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig | 70 | 15 | 20 | 15 | 120 |
| Gwyddor ffisegol | 425 | 230 | 75 | 35 | 765 |
| Gwyddor fathemategol | 115 | 65 | 20 | 15 | 215 |
| Cyfrifiadureg | 295 | 60 | 55 | 10 | 420 |
| Peirianneg a thechnoleg | 370 | 85 | 60 | 15 | 530 |
| Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio | 160 | 45 | 20 | 10 | 235 |
| Astudiaethau cymdeithasol | 765 | 130 | 70 | 50 | 1,015 |
| Y Gyfraith | 345 | 155 | 30 | 25 | 555 |
| Astudiaethau busnes a gweinyddol | 780 | 80 | 95 | 60 | 1,015 |
| Cyfathrebu torfol a dogfennaeth | 270 | 30 | 40 | 15 | 355 |
| Ieithoedd | 575 | 220 | 95 | 50 | 940 |
| Astudiaethau hanesyddol ac athronyddol | 475 | 150 | 80 | 25 | 730 |
| Celfyddydau creadigol a dylunio | 1,120 | 185 | 215 | 70 | 1,590 |
| Addysgu | 600 | 90 | 40 | 25 | 755 |
| Cyfun | 10 | 0 | 5 | 0 | 15 |
| **Cyfanswm** | **9,165** | **2,025** | **1,100** | **535** | **12,825** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil ar sail StatsCymru, **Cyrchfan cymhwyswyr SAU Cymru yn ôl y pwnc a astudiwyd a'r gweithgarwch**

Nodyn:

(a) Mae'r categori 'mewn gwaith' yn cynnwys 'Gwaith cyflog amser llawn', 'Gwaith cyflog rhan-amser', Gwaith gwirfoddol/di-dâl' a 'Gweithio ac astudio'.

(b) Mae'r categori 'Arall' yn cynnwys 'Heb fod ar gael i weithio' ac 'Arall'

(c) Disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Ionawr 2013.

## 7. Cyflogau

Bydd HESA yn cyhoeddi data am gyflogau myfyrwyr sy'n gadael SAU yn y DU. Mae Tabl 12 yn dangos cyflogau myfyrwyr sy'n hanu o'r DU 6 mis ar ôl iddynt adael â SAU yn y DU, a gafodd gymhwyster gradd gyntaf ac a ddechreuodd mewn swydd gyflogedig amser llawn yn y DU yn ôl lleoliad y sefydliad a dull astudio yn 2010/11.

Mae'r tabl yn dangos mai:

- Cyflog canolrifol unigolyn a gafodd gymhwyster gradd gyntaf mewn SAU yng Nghymru chwe mis ar ôl iddo adael yn 2010/11 oedd £18,000, sy'n is na chanolrif y DU, sef £20,000.
- Chwe mis ar ôl iddo adael SAU yng Nghymru, cyflog canolrifol unigolyn a fu'n astudio'n amser llawn ac a gafodd gymhwyster gradd gyntaf yn 2010/11 oedd £18,000, sy'n is na chanolrif y DU, sef £19,000.
- Chwe mis ar ôl gadael SAU yng Nghymru, cyflog canolrifol unigolyn a fu'n astudio'n rhan-amser ac a gafodd gymhwyster gradd gyntaf yn 2010/11 oedd £26,000, sydd yr un fath â'r cyflog yn y DU gyfan.

**Tabl 12: Myfyrwyr sy'n hanu o'r DU a gafodd gymhwyster gradd gyntaf ac a ddechreuodd mewn swydd gyflogedig amser llawn yn y DU yn ôl lleoliad y sefydliad, dull astudio a chyflog yn 2010/11.**

| | 2010/11 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | % a ddatgelodd eu cyflog | Chwartel isaf | Chwartel uchaf | Cyflog Canolrifol | Cyflog Cymedrig |
| **SAU y DU** | | | | | |
| Amser llawn | 69% | £15,000 | £23,000 | £19,000 | £20,000 |
| Rhan-amser | 71% | £20,000 | £32,000 | £26,000 | £27,500 |
| **Cyfanswm** | **69%** | **£15,000** | **£25,000** | **£20,000** | **£21,000** |
| **SAU Lloegr** | | | | | |
| Amser llawn | 71% | £15,000 | £23,000 | £19,000 | £20,000 |
| Rhan-amser | 72% | £20,000 | £32,000 | £26,000 | £27,500 |
| **Cyfanswm** | **71%** | **£15,000** | **£25,000** | **£20,000** | **£21,000** |
| **SAU Cymru** | | | | | |
| Amser llawn | 58% | £14,000 | £22,000 | £18,000 | £18,500 |
| Rhan-amser | 61% | £21,000 | £32,000 | £26,000 | £27,000 |
| **Cyfanswm** | **58%** | **£14,000** | **£22,000** | **£18,000** | **£19,500** |
| **SAU yr Alban** | | | | | |
| Amser llawn | 64% | £16,000 | £24,000 | £21,000 | £21,000 |
| Rhan-amser | 68% | £22,000 | £34,000 | £28,000 | £29,000 |
| **Cyfanswm** | **64%** | **£16,000** | **£25,000** | **£21,000** | **£21,500** |
| **SAU Gogledd Iwerddon** | | | | | |
| Amser llawn | 62% | £14,000 | £23,000 | £19,000 | £20,000 |
| Rhan-amser | 63% | £18,000 | £28,000 | £23,000 | £24,000 |
| **Cyfanswm** | **62%** | **£15,000** | **£24,000** | **£20,000** | **£20,000** |

Ffynhonnell: HESA, **Tabl 5 - Myfyrwyr sy'n hanu o'r DU a gafodd gymhwyster gradd gyntaf ac a aeth i swydd gyflogedig amser llawn yn y DU yn ôl lleoliad y sefydliad, dull astudio a chyflog 2006/07 i 2010/11** Nodyn:

(a) Cyflog yw'r cyflog blynyddol i'r fil o bunnoedd agosaf cyn treth, i 'r rhai sydd mewn swydd gyflogedig amser llawn (ac eithrio'r hunangyflogedig). Caiff pobl wrthod darparu gwybodaeth am gyflog.

(b) Talgrynir ffigurau cyflogau i'r £500 agosaf.

(c) Dulliau astudio: Mae amser llawn yn cynnwys y dull amser llawn a chyrsiau rhyngosod yn ogystal â'r rheini sy'n cwblhau fersiwn derfynol eu traethodau ac a oedd yn dilyn dull astudio amser llawn cyn hynny a myfyrwyr y cofnodwyd bod ganddynt statws segur ond a oedd gynt wedi'u cofrestru'n fyfyrwyr amser llawn. Mae rhan-amser yn cynnwys y rheini sy'n astudio'n rhan-amser, y rheini a oedd yn amser llawn am lai na 24 wythnos yn y flwyddyn academaidd, yn cael eu rhyddhau fesul bloc neu'n astudio gyda'r nos, yn ogystal â'r rheini sy'n ysgrifennu fersiwn derfynol eu traethodau a oedd gynt wedi'u cofrestru'n rhan-amser.


(ch) Disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Mehefin 2013

Mae Ffigur 7 yn dangos canlyniadau arolwg hydredol o'r myfyrwyr sy'n hanu o'r DU 3 ½ blynedd ar ôl iddynt adael SAU yn y DU yn ôl band cyflog blynyddol a rhanbarth y sefydliad yn 2010/11.

Mae'r ffigur yn dangos:

- bod 10 y cant o'r myfyrwyr sy'n gadael SAU yng Nghymru yn ennill llai na £14,999 3 ½ blynedd ar ôl iddynt adael o'u cymharu â 6 y cant sy'n gadael SAU yn Lloegr, 8 y cant yn yr Alban ac 13 y cant yng Ngogledd Iwerddon.
- bod 46 y cant o fyfyrwyr sy'n gadael SAU yng Nghymru yn ennill rhwng £25,000 a £39,000 3 ½ blynedd ar ôl iddynt adael o'u cymharu â 56 y cant o SAU Lloegr, 57 y cant o SAU yr Alban a 43 y cant o SAU Gogledd Iwerddon.
- bod 9 y cant o fyfyrwyr sy'n gadael â SAU yng Nghymru'n ennill dros £40,000 3 ½ blynedd ar ôl iddynt adael o'u cymharu â 12 y cant o SAU Lloegr,11 y cant o SAU yr Alban ac 8 y cant o SAU Gogledd Iwerddon.

**Ffigur 7 Arolwg Hydredol yn dangos myfyrwyr sy'n hanu o'r DU 3 ½ blynedd ar ôl iddynt adael SAU yn y DU yn ôl band cyflog blynyddol a rhanbarth y sefydliad yn 2010/11(heb gynnwys yr hunangyflogedig).**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau ymchwil gan HESA, Tabl 10 - Myfyrwyr sy'n hanu o'r DU a adawodd yn 2006/07 sydd mewn swydd gyflogedig amser llawn yn y DU (ac eithrio'r hunangyflogedig) yn ôl lefel cymhwyster, dull astudio, rhyw, grŵp sefydliadau AU (#1), rhanbarth y SAU a band cyflog ,

Nodyn:

(a) Ni chynhwyswyd y cynfyfyrwyr hynny nad yw'n hysbys faint yw eu cyflog.

(b) Dangosir canolrif y cyflogau at y £500 agosaf gan fod yr arolwg yn casglu gwybodaeth am gyflogau at y fil o bunnoedd agosaf.

(c) Disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Mehefin 2013.

## 8. Incwm a Gwariant SAU Cymru


Bydd HESA yn cyhoeddi data am incwm a gwariant SAU y DU. Ar gyfer 2011/12 y mae'r data diweddaraf sydd ar gael. Mae Ffigur 8 yn dangos bod SAU Cymru yn 2011/12 wedi cael £1.3 biliwn o'u hincwm (cynnydd o 2 y cant ers 2010/11) [13] drwy gyfrwng grantiau cyrff ariannu, ffioedd a chontractau addysg, grantiau a chontractau ymchwil; incwm arall ac incwm o fuddsoddiadau. **Daw 65 y cant o'r incwm yn sgil grantiau gan gyrff ariannu a ffioedd dysgu a chontractau addysg.** Diffinnir yr hyn sydd wedi'i gynnwys ym mhob un o'r categorïau hyn yn fwy manwl isod.

- Yng Nghymru, y **corff ariannu** yw Cyngor Ariannu Addysg Uwch Cymru (CAAUC). Mae grant y corff ariannu, sef £395 miliwn, yn cynnwys arian rheolaidd ar gyfer addysgu ac ymchwil ac unrhyw arian rheolaidd arall megis cyllid arbennig, rhyddhau grantiau cyfalaf gohiriedig ac unrhyw grantiau ar gyfer darpariaeth Addysg Bellach (AB) a ddarperir yn y sefydliad.[14] Rhoddir y manylion fesul SAU yng Nghymru yn Nhabl 1 o Atodiad 1.
- **Mae ffioedd dysgu a chontractau addysg** yn cynnwys ffioedd dysgu gan fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU, myfyrwyr o'r UE a rhai o'r tu allan i'r UE, ffioedd cyrsiau nad ydynt yn gyrsiau credydau, ffioedd cyrsiau AB; ac unrhyw grantiau cynhaliaeth hyfforddiant ymchwil.[15] Rhoddir y manylion fesul SAU yng Nghymru yn Nhabl 2 o Atodiad 1.
- **Mae grantiau a chontractau ymchwil** yn cynnwys incwm gan Gynghorau Ymchwil yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau; Y Gymdeithas Frenhinol, Academi Prydain; Cymdeithas Frenhinol Caeredin, elusennau sydd â'u canolfan yn y Deyrnas Unedig, cyrff llywodraeth ganolog/awdurdodau lleol, iechyd ac awdurdodau ysbytai'r DU, corfforaethau diwydiant, masnach a chyhoeddus y DU, ffynonellau'r UE; ffynonellau y tu allan i'r UE a ffynonellau eraill.[16]
- Mae **incwm arall** yn cynnwys gwasanaethau eraill a ddarperir, neuaddau ac arlwyo (gan gynnwys cynadleddau); grantiau gan awdurdodau lleol, incwm gan awdurdodau iechyd ac ysbytai (ac eithrio contractau addysgu ar gyfer darpariaeth i fyfyrwyr); rhyddhau grantiau cyfalaf gohiriedig (nid adeiladau nac offer); incwm yn sgil hawliau eiddo deallusol ac unrhyw incwm arall.[17]

---

[13] HESA, Datganiad i'r Wasg 188 – Datganiad i'r Wasg 188 ar Faterion Ariannol Sefydliadau Addysg Uwch y DU 2011/12, Mawrth 2013 [fel ar 15 Ebrill 2013]
[14] ibid
[15] ibid
[16] ibid
[17] ibid


**Ffigur 8: Ffynonellau incwm SAU yng Nghymru yn 2011/12 (£ miloedd)**




Ffynhonnell: HESA, Datganiad i'r Wasg 188 ar Faterion Ariannol Sefydliadau Addysg Uwch y DU 2011/12

Mae Ffigur 9 yn dangos bod SAU Cymru wedi gwario £1.2 biliwn yn 2011/12 a bod 58 y cant o'r swm hwnnw ar gostau staff.

**Ffigur 9: Ffynonellau gwariant SAU Cymru yn 2011/12 (£ miloedd)**




Ffynhonnell: HESA, Datganiad i'r Wasg 188 ar Faterion Ariannol Sefydliadau Addysg Uwch y DU 2011/12

## 9. Cyllid gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

Bob mis Mawrth, bydd CCAUC yn cyhoeddi'r grant rheolaidd (craidd) ar gyfer y flwyddyn academaidd ddilynol a gaiff pob darparwr AU sy'n cael ei ariannu'n uniongyrchol yng Nghymru. Caiff sefydliadau ddyrannu'r grant craidd yn fewnol, cyn belled â'i fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer addysgu, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig. Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2013/14 y mae'r data diweddaraf.

### *9.1. 2011/12 a chyn hynny*

Yn y flwyddyn academaidd 2011/12 roedd gan CCAUC £397 miliwn i'w ddyrannu.[18] Roedd hyn yn cynnwys:

- £260 miliwn ar ffurf grant bloc addysgu i SAU;
- £77 miliwn ar gyfer ymchwil;
- £39 miliwn ar gyfer dyraniadau strategol a mentro;
- £8 miliwn ar gyfer arloesi ac ymgysylltu; a
- £12 miliwn a oedd heb ei ddyrannu ar y pryd.

Roedd fformiwla'r grant bloc addysg yn 2011/12 wedi bod ar waith er 1999. Seiliwyd y fformiwla ar gyfraniad o werth £ y credyd tuag at fodiwlau unigol a oedd yn ystyried y ffaith bod gwahanol fodiwlau'n costio symiau gwahanol i SAU eu darparu e.e. mae modiwl dyniaethau'n 'rhatach' i'w ddarparu na modiwl peirianneg. Modiwl clinigol meddygaeth a deintyddiaeth yw'r drutaf i'w ddarparu.

### *9.2. 2012/13*

Y ffi dysgu uchaf a godir gan SAU ar fyfyrwyr amser llawn 2012/13 fydd £9,000. Y mwyafswm a delir gan fyfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Gymru neu o'r Undeb Ewropeaidd fydd £3,465 a bydd grant ffioedd CCAUC yn pontio'r gwahaniaeth.[19]

Blwyddyn bontio yw 2012/13 gan nad oes cynllun ffioedd dysgu terfynol ar gael eto ar gyfer myfyrwyr Rhan-amser. Ym mis Rhagfyr 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y byddai system ddiwygiedig ar gyfer ffioedd dysgu a chynhaliaeth i fyfyrwyr AU  rhan-amser yn cael ei gohirio tan flwyddyn academaidd 2014/15.[20] Yn 2012/13, dyrannodd CCAUC gyllid o £368 miliwn.[21] Roedd hyn yn cynnwys:

---

[18] CCAUC, **W12/10HE HEFCW: Strategic Funding Allocations 2012/13**, tudalen 17, 30 Mawrth 2012 [fel ar 5 Chwefror 2013]

[19] Cyllid Myfyrwyr Cymru, **Cymorth Ariannol ar gael i fyfyrwyr newydd yn 2012/13** [fel ar 22 Chwefror 2013]

[20] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Y Gweinidog Addysg a Sgiliau), **Oedi cyn cyflwyno newidiadau i gymorth i fyfyrwyr rhan-amser**, 7 Rhagfyr 2012 [fel ar 5 Chwefror 2013]

[21] CCAUC, Datganiad i'r wasg – **Cyllid ar gyfer addysg uwch yn 2013/14, 10 Ebrill 2013** [fel ar 15 Ebrill 2013]

- £100 miliwn ar gyfer taliadau grant ffioedd gan gynnwys £65 miliwn i SAU yng Nghymru a £35 miliwn mewn taliadau grant ffioedd i SAU yng ngweddill y Deyrnas Unedig ar gyfer myfyrwyr a recriwtiwyd o Gymru;
- £76 miliwn ar gyfer ymchwil (gan gynnwys ymchwil ôl-raddedig);
- £81 miliwn ar gyfer darpariaeth israddedig a TAR drwy'r gronfa buddsoddi cyhoeddus;[22]
- £56 miliwn ar gyfer darpariaeth addysgu rhan amser a chyrsiau ôl-raddedig a addysgir, gan gynnwys £9 miliwn mewn arian premiwm;
- £35 miliwn ar gyfer dyraniadau strategol a mentrau; a
- £10 miliwn ar gyfer arloesi ac ymgysylltu.

## *9.3. 2013/14*

**Ym mis Mawrth 2013 cyhoeddodd CCAUC y dyraniadau cyllid ar gyfer blwyddyn academaidd 2013/14, sef yr ail flwyddyn ers symud i'r system newydd ar gyfer ffioedd a chyllid myfyrwyr. Bydd CCAUC yn dyrannu £382 miliwn (cynnydd o 6.5 y cant ers 2012/13) o gyllid ar gyfer AU ym mlwyddyn academaidd 2013/14, gan gynnwys:**

- £167 miliwn mewn taliadau grant ffioedd dysgu, gan gynnwys amcangyfrif o £117 miliwn mewn taliadau grant ffioedd i SAU yng Nghymru ac amcangyfrif o £50 miliwn mewn taliadau grant ffioedd i SAU yng ngweddill y Deyrnas Unedig ar gyfer myfyrwyr a gaiff eu recriwtio o Gymru;
- £76 miliwn ar gyfer ymchwil (gan gynnwys ymchwil ôl-raddedig);
- £48 miliwn ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn a darpariaeth TAR drwy'r gronfa buddsoddi cyhoeddus;[23]
- £46 miliwn ar gyfer darpariaeth addysgu rhan amser a chyrsiau ôl-raddedig a addysgir, gan gynnwys £9 miliwn mewn arian premiwm;
- £39 miliwn ar gyfer dyraniadau strategol a mentrau;
- £6 miliwn ar gyfer arloesi ac ymgysylltu.

[22] Diben y gronfa buddsoddi cyhoeddus yw helpu sefydliadau AU i roi blaenoriaethau penodol ar waith mewn addysg uwch yng Nghymru. Dyrennir llawer o'r cyllid drwy roi arian premiwm ar gyfer myfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau yn y drydedd flwyddyn a'r tu hwnt, a hynny mewn meysydd fel ehangu mynediad, recriwtio myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a myfyrwyr anabl, a recriwtio myfyrwyr i feysydd pwnc sydd wedi'u blaenoriaethu, er bod y cyfraddau ar gyfer y premiymau wedi'u haddasu yn sgîl rhoi arian ffioedd grant i sefydliadau.
[23] ibid

Mae CCAUC yn amcangyfrif y bydd Cymru yn cael tua £87 miliwn o ffioedd dysgu ychwanegol gan fyfyrwyr o weddill y Deyrnas Unedig.[24] Ni fydd yr arian hwn yn cael ei dalu drwy CCAUC ac nid yw wedi'i gynnwys yng nghyllid CCAUC o £382 miliwn ar gyfer 2013/14.

[24] CCAUC, Datganiad i'r wasg – Cyllid ar gyfer addysg uwch yn 2013/14, 10 Ebrill 2013 [fel ar 15 Ebrill 2013]

## 10. Ffioedd dysgu

### ***10.1.*** *Ffioedd dysgu 2012/13*

Y ffioedd dysgu uchaf a delir gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn y flwyddyn academaidd 2012/13 fydd £3,465. Gall yr union swm a godir amrywio yn dibynnu ar ba brifysgol, neu goleg neu gwrs a ddewisir. Yn 2012/13, cynyddodd ffioedd dysgu sylfaenol Cymru i £4,000 a chaiff SAU godi hyd at £9,000 y flwyddyn, ar yr amod eu bod yn dangos ymrwymiad i ehangu mynediad ac amcanion strategol eraill drwy gyfrwng cynlluniau ffioedd a gymeradwyir gan CCAUC. Mae lefelau cyffredinol y ffioedd yn dechrau ar £3,850 ar gyfer rhai cyrsiau HND, ac maent yn amrywio o £5,850 i £9,000 ar gyfer cyrsiau gradd amser llawn i is-raddedigion, a chyrsiau TAR. Ar gyfartaledd, y lefel drwyddi draw fydd oddeutu **£8,800**.[25]

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu Grant Ffioedd Dysgu i SAU i dalu am y gwahaniaeth rhwng ffioedd y cyrsiau a'r mwyafswm y caniateir ei godi ar fyfyrwyr, sef £3,465. Mae'r Grant yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n mynychu prifysgolion yng Nghymru neu mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig ac i fyfyrwyr yr Undeb Ewropeaidd sy'n astudio yng Nghymru.[26]

Mae ffigur 10 o ystadegau HESA yn dangos y rhaniad rhwng incwm ffioedd dysgu a chontractau addysg yng Nghymru o'u cymharu ag yng ngweddill y Deyrnas Unedig ar gyfer 2011/12. Mae'r ffigur yn dangos:


- Bod 60 y cant o gyfanswm incwm ffioedd dysgu a chontractau addysg Cymru yn dod gan fyfyrwyr is-raddedig amser llawn o'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd o'u cymharu â 48 y cant yn Lloegr, 34 y cant yn yr Alban a 75 y cant yng Ngogledd Iwerddon.

---

[25] CCAUC Datganiad i'r Wasg **Prifysgolion a cholegau'n cael caniatâd i godi ffioedd uwch** [fel ar 11 Mawrth 2013]

[26] Cyllid Myfyrwyr Cymru, **Cymorth Ariannol ar gael i fyfyrwyr newydd yn 2012/13** [fel ar 11 Chwefror 2013]

**Ffigur 10: Y rhaniad rhwng incwm ffioedd dysgu a chontractau addysg yng Nghymru o'u cymharu ag yng ngweddill y Deyrnas Unedig ar gyfer 2011/12.**




Ffynhonnell : Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o HESA, Finance Plus 2011/12 [Copi Caled]

## *10.2. Ffioedd dysgu 2013/14*

Cyhoeddodd CCAUC faint fyddai'r nifer fwyaf o fyfyrwyr y byddai'n ei hariannu ar gyfer 2013/14 yn ei gylchlythyr, 'Strategic Reallocation of Student Numbers 2013/14 – Outcomes'.[27] Yn ei gylchlythyr *Strategic Reallocation of Students Numbers 2013/14* [28], cyhoeddodd CCAUC ddull craidd/ymylol **untro** tebyg i hwnnw a gyhoeddwyd gan y Cyngor Cyllido Addysg Uwch yn Lloegr[29] (HEFCE) er mwyn caniatáu iddo ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Uwch. I grynhoi, dyma'r dull a ddefnyddiwyd yng Nghymru:

- Mae'n ailddyrannu uchafswm nifer y myfyrwyr ar draws SAU gan ffafrio'r rheini sy'n codi ffi gyfartalog o £7,500 neu'n is na hynny ar gyfer 2013/14;
- Mae'n sicrhau nad yw'r SAU hynny y byddai eu safle yn y farchnad ryngwladol yn eu hannog i gadw'u ffioedd ar y gyfradd uchaf o dan anfantais, e.e. Prifysgol Caerdydd; a
- Mae'n aildafoli dosbarthiad yr incwm ychwanegol sydd ar gael i'r sector er mwyn gwneud iawn am ganlyniadau anfwriadol y drefn ffioedd dysgu newydd ac felly'n sicrhau na fydd rhai SAU yn elwa'n sylweddol ar draul sefydliadau eraill.

Un gwahaniaeth allweddol rhwng dull ymylol/craidd Cymru o ailddyrannu niferoedd myfyrwyr yn strategol (***Strategic Reallocation of Student Numbers***) a'r dull a ddefnyddir yn Lloegr yw y bydd myfyrwyr sydd â chymwysterau mynediad sy'n cyfateb i raddau AAB neu'n well yn eu harholiadau safon uwch yn cael eu heithrio o boblogaeth reoli nifer y myfyrwyr yn SAU Lloegr yn 2012/13. Rhagwelir bod hyn yn cyfateb i 65,000 o leoedd yn 2012/13.[30] Yn Lloegr, bydd y drefn recriwtio myfyrwyr sy'n cyflawni'n dda fel hyn, heb gapio'r nifer, yn cael ei llacio eto yn 2013/14. Bydd y trothwy safon uwch yn gostwng o AAB neu'n well i ABB neu'n well.[31]

---

[27] CCAUC - **Strategic Reallocation of Student Numbers 2013/14 – Outcomes**, 5 Ebrill 2012 [fel ar 11 Mawrth 2013]
[28] CCAUC: **W12/03HE Strategic Reallocation of Student Numbers 2013/14**, 17 Ionawr 2012 [fel ar 11 Mawrth 2013]
[29] HEFCE – **Recurrent grants and student number controls 2012-13**, dyddiedig Mawrth 2012 [fel ar 11 Mawrth 2013]
[30] HEFCE – **Recurrent grants and student number controls 2012-13**, tudalen 3, dyddiedig Mawrth 2012 [fel ar 11 Mawrth 2013]
[31] Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, **Datganiad i'r Wasg**, 27 Ebrill 2012 [fel ar 11 Mawrth 2013]

Mae Tabl 13 yn dangos cyfartaledd y ffioedd dysgu a godir ar is-raddedigion gan SAU Cymru a gyhoeddwyd yn eu cynlluniau ffioedd 2012/13 a 2013/14.[32] Mae'r tabl yn dangos, o ganlyniad i'r ailddyrannu strategol ar niferoedd myfyrwyr gan CCAUC bod nifer o SAU wedi gostwng eu ffioedd i £7,500 neu lai yn gyfnewid am gynyddu nifer y myfyrwyr a ariennid. Mae'r dull hwn yn dangos sut y gall CCAUC gyfeirio'i ariannu i gyflawni'r amcanion strategol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyfleu yn ei chynllun ***Er Mwyn Ein Dyfodol.***

Dyma'r prif bwyntiau sy'n codi yn Nhabl 13:

- Penderfynodd y canlynol i gyd: Prifysgol Morgannwg, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Prifysgol Cymru Casnewydd, Prifysgol Fetropolitan Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant; i ostwng eu ffioedd dysgu ar gyfer 2013/14 i £7,500 yn dilyn y cyhoeddiad gan CCAUC y byddai'r SAU hynny a oedd yn codi £7,500 (sef yr un lefel ag a ddefnyddir yn Lloegr) neu lai ar gyfer gradd amser llawn i is-raddedigion /cyrsiau TAR ar eu hennill wrth ailddyrannu niferoedd myfyrwyr.
- Prifysgol Glyndŵr oedd yr unig SAU a gynyddodd ei ffioedd dysgu.
- Llwyddodd pum sefydliad i ennill lleoedd i fyfyrwyr yn sgil yr ymarfer ailddyrannu strategol ac mae pump wedi wynebu gostyngiad yn eu niferoedd.
- Dyrannwyd 200 o leoedd ychwanegol i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe, gan gydnabod bod y cynlluniau uno arfaethedig yn tynnu i ben. Bydd y lleoedd ychwanegol yn dibynnu ar gyflawni ystod o gamau sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu yn ne orllewin Cymru.[33]

---

[32] CCAUC, **Ffioedd i fyfyrwyr amser-llawn is-raddedig o 2012**, [fel ar 11 Mawrth 2013]
[33] CCAUC – **Strategic Reallocation of Student Numbers 2013/14 – Outcomes**, 5 Ebrill 201, paragraff 3.5 [fel ar 11 March 2013]

## Tabl 13: Cynlluniau Ffioedd SAU Cymru 2012/13 a 2013/14

£'s

| | 2012/13 | 2013/14 | Newid yn y mwyafswm a gaiff myfyrwyr newydd CCAUC o'i gymharu â 2012/13 |
|---|---|---|---|
| **Cyfartaledd ffioedd is-raddedigion Prifysgol Morgannwg** | **8,673** | **7,499** | |
| Graddau amser llawn i isr-addedigion | 9,000 | 8,000-9,000 | 811 |
| Darpariaeth amser llawn arall i is-raddedigion e.e. HND/cyrsiau sylfaen | 7,500 | | |
| Cyrsiau amser llawn i is-raddedigion nad ydynt yn raddau a chyrsiau gradd sylfaen | | 5,000 | |
| **Cyfartaledd ffioedd is-raddedigion Prifysgol Aberystwyth** | **9,000** | **9,000** | -513 |
| Yr holl ddarpariaeth amser llawn i is-raddedigion ` | 9,000 | 9,000 | |
| **Cyfartaledd ffioedd is-raddedigion Prifysgol Bangor** | **8,977** | **8,975** | -201 |
| Rhaglenni amser llawn i is-raddedigion | 9,000 | 9,000 | |
| HND dan drwydded i Coleg Menai) | 7,000 | 7,300 | |
| **Cyfartaledd ffioedd is-raddedigion Prifysgol Caerdydd** | **9,000** | **9,000** | 63 |
| Darpariaeth amser llawn i is-raddedigion a TAR | 9,000 | 9,000 | |
| **Cyfartaledd ffioedd is-raddedigion Prifysgol Abertawe** | **9,000** | **9,000** | -274 |
| Darpariaeth amser llawn i is-raddedigion a TAR | 9,000 | 9,000 | |
| **Cyfartaledd ffioedd is-raddedigion Prifysgol Fetropolitan Caerdydd** | **9,000** | **7,500** | 157 |
| Darpariaeth amser llawn i is-raddedigion a TAR | 9,000 | 7,500 | |
| **Cyfartaledd ffioedd is-raddedigion Prifysgol Cymru Casnewydd** | **8,644** | **7,500** | -311 |
| Darpariaeth amser llawn i is-raddedigion a TAR | 8,250-9,000 | 7,500 | |
| **Cyfartaledd ffioedd is-raddedigion Prifysgol Glyndŵr** | **6,643** | **6,999** | 112 |
| Rhaglenni amser llawn i is-raddedigion | 5,850-7,750 | 6,435-8,138 | |
| TAR | 6,950 | 7,250 | |
| HND | 3,850 | 4,235 | |
| **Cyfartaledd ffioedd is-raddedigion Prifysgol Fetropolitan Abertawe** | **8,578** | **7,500** | 360 |
| Rhaglenni amser llawn i is-raddedigion | 8,500-8,750 | 7,500 | |
| TAR | 9,000 | 7,500 | |
| **Cyfartaledd ffioedd is-raddedig Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant** | **8,557** | **7,500** | -71 |
| Yr holl ddarpariaeth amser llawn i is-raddedigion | 8,500-9,000 | 7,500 | |

Ffynhonnell: CCAUC, Ffioedd is-raddedigion amser llawn o 2012 ymlaen a CCAUC: W12/03HE Strategic Reallocation of Student Numbers 2013/14, 17 Ionawr 2012

## 11. Cymorth ariannol i fyfyrwyr newydd o 2013/14 ymlaen

Gall myfyrwyr sydd fel rheol yn byw yng Nghymru, ni waeth ymhle y maent yn byw yn y Deyrnas Unedig, fod yn gymwys ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

Partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, sy'n asesu cymhwysedd myfyrwyr i gael cymorth, a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr sy'n gwneud y taliadau yw Cyllid Myfyrwyr Cymru. Bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn cydweithio i ddarparu cymorth ariannol i fyfyrwyr ar ran Llywodraeth Cymru.

Sefydliad heb fryd ar wneud elw sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth y DU yw'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Fe'i sefydlwyd yn 1989 i ddarparu benthyciadau a grantiau i fyfyrwyr prifysgol a cholegau'r Deyrnas Unedig.

**Ar gyfer 2013/14 , mae cymorth ariannol i fyfyrwyr newydd** sydd fel rheol yn byw yng Nghymru yn cynnwys help gyda **ffioedd dysgu,** help gyda **chostau byw** a help i'r rheini sydd ag **amgylchiadau arbennig.** Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld isod.

### *11.1. Help gyda ffioedd dysgu*

Gall myfyrwyr gael **Benthyciad Ffioedd Dysgu** i dalu am eu ffioedd dysgu i gyd neu am ran gyntaf y ffioedd hynny a godir gan eu dewis brifysgol neu goleg, hyd at fwyafswm o £3,575. Os bydd yr union ffi a godir gan y brifysgol neu'r coleg yn fwy na £3,575, gall y myfyrwyr hefyd gael **Grant Ffioedd Dysgu** a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Nid oes yn rhaid ad-dalu hwn. Bydd y grant yn talu am unrhyw wahaniaeth rhwng uchafswm y benthyciad a'r union ffi a godir arnynt. Felly, er enghraifft, os bydd y brifysgol yn codi £7,500 am ffioedd dysgu, gall y myfyriwr gael £3,575 ar ffurf Benthyciad Ffioedd Dysgu a £3,925 ar ffurf Grant Ffioedd Dysgu.

Telir y Benthyciad Ffioedd Dysgu yn uniongyrchol gan y Cwmni Cyllid Myfyrwyr i'r brifysgol neu'r coleg, felly, ni fydd y myfyriwr yn cael yr arian ei hun.

Mae'n rhaid i fyfyrwyr ad-dalu benthyciadau ar ôl gorffen eu cwrs. Ar hyn o bryd, ni fydd yn rhaid i unigolyn ddechrau ad-dalu'r benthyciad tan iddo ennill £21,000 y flwyddyn cyn treth. Bydd y trothwy ad-dalu'n newid yn unol â chyfartaledd enillion y Deyrnas Unedig bob blwyddyn, gan ddechrau ym mis Ebrill 2017. Fe all unrhyw newid i'r trothwy ad-dalu effeithio ar symiau'r ad-daliadau. Mae rhagor o wybodaeth am ad-daliadau i'w gweld ar wefan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## *11.2. Cymorth gyda chostau byw*

Gall myfyrwyr gael **Benthyciad Cynhaliaeth,** y mae'n rhaid iddynt ei ad-dalu, a **grantiau a bwrsarïau**, nad oes yn rhaid iddynt eu had-dalu. Gall incwm myfyrwyr ac incwm rhieni neu bartner effeithio ar y swm y bydd gan fyfyriwr yr hawl i'w gael. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn darparu **cyfrifiannell** i fyfyrwyr allu cyfrifo tua faint o help ariannol a allai fod ar gael iddo.

### *11.2.1. Benthyciad Cynhaliaeth*

Darperir y **benthyciad cynhaliaeth** er mwyn helpu gyda **chostau byw** a bydd y swm sydd ar gael yn dibynnu ar ymhle y bydd y myfyriwr yn byw yn ystod y tymor ac a fydd yn astudio yn Llundain neu beidio. Mae mwyafswm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael yn amrywio rhwng £3,987 os bydd y myfyriwr yn byw gyda'i rieni hyd at £7,215 os bydd y myfyriwr yn byw yn ei gartref ei hun ac yn byw yn Llundain. Os bydd y cwrs yn hwy na 30 o wythnosau yn ystod y tymor (yn ogystal â gwyliau byr) gall y myfyriwr gael benthyciad ychwanegol i'w helpu gyda'i gostau byw sy'n amrywio o £55 os bydd y myfyriwr yn byw gyda'i rieni i hyd at £115 os bydd y myfyriwr yn astudio dramor. Fel rheol, telir y Benthyciad Cynhaliaeth fesul tri rhandaliad – un ar ddechrau pob tymor – yn syth i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu'r myfyriwr. Bydd yn rhaid ad-dalu'r benthyciad cynhaliaeth pan fydd y myfyriwr yn gorffen ei gwrs.

Os bydd myfyriwr sydd fel rheol yn byw yng Nghymru yn codi Benthyciad Cynhaliaeth yn 2013/14 mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn canslo hyd at £1,500 o falans benthyciad y myfyriwr pan fydd yn dechrau ad-dalu. Er mwyn cael canslo'r ddyled hon, rhaid i'r myfyriwr godi Benthyciad Cynhaliaeth drwy gyfrwng Cyllid Myfyrwyr Cymru yn y flwyddyn academaidd 2013/14. Pan fydd y myfyriwr yn ad-dalu'r swm cyntaf ar ei fenthyciad, bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn canslo'n awtomatig £1,500 o'r Benthyciad Cynhaliaeth a godir yn flwyddyn academaidd 2013/14.[34]

Yr un trothwyon ad-dalu sy'n berthnasol ag sy'n berthnasol i ffioedd dysgu.

---

[34] Cyllid Myfyrwyr Cymru, **Benthyciad Cynhaliaeth** [fel ar 12 Mawrth 21013]

### *11.2.2. Grantiau*

Gall fod gan fyfyriwr yr hawl i gael **Grant Dysgu'r Cynulliad**[35] yn dibynnu ar incwm y myfyriwr ac ar incwm rhieni neu bartner. Y grant sydd ar gael ar hyn o bryd yw:

- Uchafswm grant o £5,161 os yw cyfanswm incwm yr aelwyd yn llai na £18,370;
- Grant rhannol os yw cyfanswm incwm yr aelwyd rhwng £18,371 a £50,020, a
- Dim grant os yw cyfanswm incwm yr aelwyd yn fwy na £50,202.

Fel rheol, telir Grant Dysgu'r Cynulliad fesul tri rhandaliad – un ar ddechrau pob tymor – yn syth i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu'r myfyriwr ac **ni fydd yn rhaid ei ad-dalu.** Os bydd gan fyfyriwr yr hawl i gael Grant Dysgu'r Cynulliad, bydd rhywfaint o'r swm y bydd ganddo'r hawl iddo'n cael ei dalu yn lle rhywfaint o'r Benthyciad Cynhaliaeth. Mae hyn yn golygu na fydd yn rhaid ad-dalu cyfran mor fawr o'r cymorth ariannol a gaiff.

Gall myfyrwyr hefyd fod yn gymwys i gael y **Grant Cymorth Arbennig** [36]

- os ydynt yn rhiant sengl
- os yw eu partner yn fyfyriwr hefyd
- os oes ganddynt anableddau penodol

Mae'r swm y gall myfyriwr ei gael yr un fath â Grant Dysgu'r Cynulliad, ond ni fydd yn effeithio ar faint a gaiff ar ffurf Benthyciad Cynhaliaeth. At hynny, nid yw'n cyfrif fel incwm wrth benderfynu ynghylch budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm neu gredydau treth. Fel rheol, telir y Grant Cymorth Arbennig fesul tri rhandaliad – un ar ddechrau pob tymor – yn syth i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu'r myfyriwr ac **nid oes yn rhaid ei ad-dalu.** Dim ond y Grant Cymorth Arbennig NEU Grant Dysgu'r Cynulliad a gaiff myfyriwr, nid y ddau. Bydd pa un a gaiff rhywun yn dibynnu ar ei allu i hawlio budd-daliadau penodol sy'n gysylltiedig ag incwm.

### *11.2.3. Bwrsarïau*

Caiff myfyrwyr wneud cais hefyd am unrhyw fwrsarïau a gynigir gan brifysgolion neu golegau unigol.

---

[35] Cyllid Myfyrwyr Cymru, Grant Dysgu'r Cynulliad [fel ar 12 Mawrth 2013]
[36] Cyllid Myfyrwyr Cymru, Grant Cymorth Arbennig [fel ar 12 Mawrth 2013]

## *11.3. Help ychwanegol*

Mae grantiau[37] ychwanegol ar gael i'r myfyrwyr hynny sydd ag amgylchiadau arbennig ac nid oes yn rhaid ad-dalu'r rhain. Dyma'r amgylchiadau arbennig:

- Help i fyfyrwyr sydd â phlant
- Help i fyfyrwyr sydd â dibynyddion sy'n oedolion
- Help i fyfyrwyr ag anableddau

Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar **Wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn cyhoeddi ystadegau am gymorth i fyfyrwyr AU yng Nghymru. Mae Tabl 14 wedi'i gynhyrchu ar sail ei datganiad ystadegol diweddaraf ac mae'n dangos cyfanswm nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a wnaeth gais am Gymorth  i Fyfyrwyr a faint a ddyfarnwyd iddynt a nifer y myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd sy'n astudio yng Nghymru y dyfarnwyd Cymorth Ffioedd Dysgu iddynt ym mlynyddoedd 2010/11 tan 2012/13. Dyma'r prif bwyntiau yn y datganiad:

- Nifer derfynol yr ymgeiswyr y dyfarnwyd cymorth i fyfyrwyr iddynt ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12 oedd 52,700 sy'n ostyngiad o bedwar y cant ers y flwyddyn academaidd flaenorol pan ddyfarnwyd cymorth i 54,800.
- Swm terfynol y cymorth i fyfyrwyr a ddyfarnwyd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12 oedd £424.7 miliwn sy'n gynnydd o bedwar y cant ers y flwyddyn academaidd flaenorol pan ddyfarnwyd cymorth gwerth £407.7 miliwn.
- Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2012/13, mae'r ffigurau cychwynnol ar ôl dau fis o'r flwyddyn academaidd yn dangos mai nifer fwyaf yr ymgeiswyr y dyfarnwyd cymorth i fyfyrwyr iddynt cyn belled yw 53,600, ganol Tachwedd 2012. Y swm a ddyfarnwyd cyn belled yw £540.4m sy'n adlewyrchu'r drefn ffioedd dysgu newydd.

---

[37] Cyllid Myfyrwyr Cymru, **Grantiau ychwanegol ar gyfer myfyrwyr ag amgylchiadau arbennig** [fel ar 12 Mawrth 2013]

**Tabl 14: Cyfanswm nifer yr ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru y dyfarnwyd Cymorth i Fyfyrwyr iddynt a'r swm a ddyfarnwyd, a nifer yr ymgeiswyr o'r Undeb Ewropeaidd sy'n astudio yng Nghymru y dyfarnwyd Cymorth Ffioedd Dysgu iddynt ym mlynyddoedd Academaidd 2010/11 tan 2012/13.**

| | Nifer yr ymgeiswyr a gafodd ddyfarniad neu daliad (Nodyn a) (000s) | | | Swm a Ddyfarnwyd neu a dalwyd (Nodyn a) £m | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Cynnyrch | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 (Amodol) | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 (Amodol) |
| Grantiau dileu ffioedd | 0.1 | (b) | (b) | 0.1 | (b) | (b) |
| Grant AU | (b) | (b) | (b) | (b) | (b) | (b) |
| Grantiau Ffioedd Dysgu | 24.4 | 12.8 | 22.3 | 46.7 | 25.2 | 107.6 |
| Grantiau Dysgu'r Cynulliad a Grantiau Cymorth Arbennig | 32.4 | 33.4 | 34.0 | 88.2 | 111.5 | 125.5 |
| Lwfans i Fyfyrwyr Anabl | 2.6 | 2.9 | (c) | 6.1 | 7.0 | (c) |
| Cymorth arall wedi'i Dargedu | 2.7 | 2.6 | 2.4 | 7.3 | 7.2 | 7.2 |
| Benthyciadau Cynhaliaeth | 47.8 | 47.7 | 48.1 | 154.4 | 144.7 | 140.6 |
| Benthyciadau Ffioedd Dysgu | 44.9 | 45.7 | 49.7 | 104.9 | 129.1 | 159.4 |
| **Cyfanswm** | **54.8** | **52.7** | **53.6** | **407.7** | **424.7** | **540.4** |

Ffynhonnell: Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, Cymorth i Fyfyrwyr Addysg Uwch yng Nghymru, Blwyddyn Academaidd 2012/13 (amodol) Tabl 2 Tudalen 6, Tachwedd 2012

Nodyn:

(a) Ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2010/11 a 2011/12 seilir ffigurau'r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, Benthyciadau Cynhaliaeth a Benthyciadau Ffioedd Dysgu uchod ar sail y symiau a dalwyd yn hytrach nag ar y symiau a ddyfarnwyd. Mae hyn oherwydd bod y taliadau'n cynrychioli'r hyn y mae myfyrwyr wedi'i gael mewn gwirionedd. Gan fod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn talu grantiau gyda'i gilydd fesul tri rhandaliad, nid oes modd penderfynu faint a dalwyd ar gyfer y mathau unigol o grantiau.

(b) Dibwys ond nid sero.

(c) Nid yw hyn ar gael

(ch) Disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Tachwedd 2013.

Mae Tabl 15 yn dangos Cyfanswm y Benthyciadau Cynhaliaeth a'r Benthyciadau Ffioedd Dysgu a dalwyd i fyfyrwyr a oedd yn hanu o Gymru ym mlynyddoedd academaidd 2010/11 i 2012/13. Mae'r datganiad ystadegol yn dangos:

- Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12, benthycodd 49,900 o fyfyrwyr £270.1 miliwn ar ffurf Benthyciad Cynhaliaeth a/neu Fenthyciad Ffioedd Dysgu, sy'n gynnydd o bump y cant ers y flwyddyn academaidd flaenorol.

**Tabl 15: Cyfanswm cyfuniad o Fenthyciadau Cynhaliaeth a Benthyciadau Ffioedd Dysgu a dalwyd i fyfyrwyr a oedd yn hanu o Gymru ym mlynyddoedd academaidd 2010/11 i 2012/13.**

| | Nifer y myfyrwyr a dalwyd (000s) | | | Cyfanswm a Dalwyd (£m) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mathau o fenthyciad | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 |
| Benthyciad Cynhaliaeth yn unig | 6.3 | 5.5 | (a) | 18.6 | 15.7 | (a) |
| Benthyciad Ffioedd Dysgu'n unig | 2.1 | 2.2 | (a) | 5.0 | 6.6 | (a) |
| Benthyciad Cynhaliaeth a Benthyciad Ffioedd Dysg | 41.5 | 42.1 | (a) | 232.8 | 247.9 | (a) |
| **Cyfanswm** | **49.9** | **49.9** | **(a)** | **256.4** | **270.1** | **(a)** |

Ffynhonnell: Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. **Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr Addysg Uwch yng Nghymru, Blwyddyn Academaidd 2012/13 (amodol)** Tabl 4E, tudalen 18,Tachwedd 2012

Nodyn:

(a) Nid yw hyn ar gael

(b) Disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Tachwedd 2013.

(c) Mae nifer y myfyrwyr yn wahanol i'r nifer yn Nhabl 14 oherwydd, er bod y rhan fwyaf yn codi'r ddau fath o fenthyciad, bydd rhai'n codi Benthyciadau Cynhaliaeth yn unig a rhai'n codi Benthyciadau Ffioedd Dysgu yn unig.

Mae Tabl 16 yn dangos Cyfanswm y Benthyciadau Cynhaliaeth a'r Benthyciadau Ffioedd Dysgu a dalwyd i fyfyrwyr a oedd yn hanu o Gymru ym mlynyddoedd academaidd 2010/11 i 2012/13. Mae'r datganiad ystadegol yn dangos:

- Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12, cafodd 49,900 o fyfyrwyr £5,420 ar gyfartaledd ar ffurf Benthyciad Cynhaliaeth a/neu Fenthyciad Ffioedd Dysgu, sy'n gynnydd o bump y cant ers y flwyddyn academaidd flaenorol.

**Tabl 16: Cyfanswm cyfuniad o Fenthyciadau Cynhaliaeth a Benthyciadau Ffioedd Dysgu a dalwyd i fyfyrwyr a oedd yn hanu o Gymru ym mlynyddoedd academaidd 2010/11 i 2012/13.**

| | Nifer y Myfyrwyr a Dalwyd (000s) | | | Cyfartaledd a Dalwyd (£) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mathau o fenthyciad | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 |
| Benthyciad Cynhaliaeth yn unig | 6.3 | 5.5 | (a) | 2,960 | 2,830 | (a) |
| Benthyciad Ffipedd Dysgu'n unig | 2.1 | 2.2 | (a) | 2,410 | 2,970 | (a) |
| Benthyciad Cynhaliaeth a Benthyciad Ffi Dysgu | 41.5 | 42.1 | (a) | 5,610 | 5,880 | (a) |
| **Cyfanswm** | **49.9** | **49.9** | **(a)** | **5,140** | **5,420** | **(a)** |

Ffynhonnell: Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr**, Cymorth i Fyfyrwyr AU yng Nghymru, Blwyddyn Academaidd 2012/13 (amodol)** Tabl 4E, tudalen 18,Tachwedd 2012

Nodiadau:

(a) Nid yw hyn ar gael.

(b) Disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Tachwedd 2013.

(c) Mae nifer y myfyrwyr yn wahanol i'r nifer yn Nhabl 14 oherwydd, er bod y rhan fwyaf yn codi'r ddau fath o fenthyciad, bydd rhai'n codi Benthyciadau Cynhaliaeth yn unig a rhai'n codi Benthyciadau Ffioedd Dysgu yn unig.


## 12. Iechyd ariannol SAU Cymru

Bydd HESA yn cyhoeddi data ar incwm a gwariant mewn perthynas â sefyllfa ariannol y sector AU yng Nghymru fel y'i dangosir yn y datganiadau ariannol archwiliedig[38]. Mae Ffigur 11 yn dangos y data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer cyfanswm yr incwm fesul SAU ar gyfer 2011/12 a'r ganran sy'n weddill ar weithrediadau parhaus (ar ôl dibrisiant a chyn eitemau eithriadol: incwm o waddolion a threth) fel canran o gyfanswm yr incwm.

Mae Tabl 11 yn amlygu'r pwyntiau a ganlyn:

- **Prifysgol Caerdydd** sy'n cynhyrchu'r **incwm mwyaf** o blith holl SAU Cymru, sef ychydig dros £426 miliwn.
- **Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant** sy'n cynhyrchu'r **incwm lleiaf** o blith holl SAU Cymru, sef oddeutu £37 miliwn.
- **Prifysgol Fetropolitan Abertawe** gynhyrchodd y gawrged mwyaf mewn cantran **o blith holl** SAU Cymru yn 2011/12, sef gwarged o bron i 21 y cant.
- Roedd gan **Brifysgol Bangor** warged negyddol yn 2011/12 .

**Ffigur 11: Cyfanswm Incwm SAU Cymru (£ miloedd) a Gwarged (y cant) yn 2010/11.**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o HESA, Finance Plus 2011/12, Tabl 1 [Copi Caled]

Nodyn:

(a) Disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Ebrill 2014.

[38] HESA, Finance Plus 2011/12 [Copi Caled]

Mae HESA hefyd yn cyhoeddi data cymhareb hyfywedd a data cymhareb gyfredol fel y'u dangosir yn nhabl 17. Mae cymhareb hyfywedd yn mesur gallu sefydliad i dalu unrhyw ddyled tymor hir petai gofyn iddo dalu ei ymrwymiadau i fenthycwyr ar ddyddiad y fantolen ac mae cymhareb gyfredol yn mesur gallu cwmni dalu ei ymrwymiadau tymor byr h.y. asedau cyfredol/dyledion cyfredol.

Mae HESA yn diffinio'r gymhareb hyfywedd fel hyn:

> Rhifiadur: Arian yn y banc + buddsoddiadau
> Enwadur: Y symiadu sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn: Benthyca allanol
> + y symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn: Y gyfran bresennol o rwymedigaethau tymor hir
> + y symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn: Gorddrafftiau banc.[39]

Mae'r cylchlythyr yn diffinio'r gymhareb gyfredol fel hyn:

> Rhifiadur: Cyfanswm asedau cyfredol.
> Enwadur: Cyfanswm y credydwyr (y symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn).[40]

Mae Tabl 17 yn dangos:

- Yn 2011/12, mae gan Brifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru Casnewydd gymhareb hyfywedd sy'n llai nag un. Fe allai hynny awgrymu nad oes ganddynt asedau net digonol i dalu eu dyledion tymor hir os digwydd i'r ddyled gael ei 'hawlio', er bod hynny'n annhebygol.
- Mae cymhareb gyfredol pob SAU yng Nghymru yn fwy nag un sy'n awgrymu bod ganddynt ddigon o asedau cyfredol i dalu eu dyledion tymor byr.

**Tabl 17: Cymarebau hyfywedd a chyfredol fesul SAU yng Nghymru yn 2011/12**

| Sefydliad AU | Cymhareb Hyfywedd | Cymhareb Gyfredol |
|---|---:|---:|
| Prifysgol Morgannwg | 0.79 | 1.43 |
| Prifysgol Aberystwyth | 2.78 | 1.18 |
| Prifysgol Bangor | 1.69 | 1.48 |
| Prifysgol Caerdydd | 7.85 | 2.92 |
| Prifysgol Fetropolitan Caerdydd | 1.06 | 2.09 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 27.36 | 1.49 |
| Prifysgol Abertawe | 12.35 | 1.30 |
| Prifysgol Cymru Casnewydd | 0.92 | 3.68 |
| Prifysgol Glyndŵr | (a) | 1.12 |
| Prifysgol Fetropolitan Abertawe | (a) | 17.43 |

Ffynhonnell: HESA, Finance Plus 2011/12 [Copi Caled]

Nodyn:

(a) Data ddim ar gael

[39] HESA, Finance Plus 2011/12 [Copi Caled]
[40] ibid

## 13. Ymarfer Asesu Ymchwil

### *13.1. Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil*

Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yw'r system newydd a ddefnyddir ledled y Deyrnas Unedig i asesu ymchwil yn SAU y DU ac mae'n disodli'r Ymarfer Asesu Ymchwil. Fe'i cynhelir ar y cyd gan bob un o bedwar corff ariannu AU y DU, ac fe'i rheolir ar eu rhan gan dîm y fframwaith sydd â'i ganolfan yn HEFCE.[41]

Bydd y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yn dechrau yn 2014. Bydd panelau o arbenigwyr mewn meysydd pwnc academaidd unigol yn asesu cyflwyniadau ymchwil sefydliadau o dan y penawdau bras a ganlyn:

- Allbynnau ymchwil – ansawdd cyhoeddiadau ymchwil ac allbynnau ymchwil eraill
- Effaith – y buddiannau i'r economi, i gymdeithas, diwylliant polisi neu wasanaethau cyhoeddus, iechyd, yr amgylchedd neu ansawdd bywyd
- Yr amgylchedd ymchwil - hyfywedd a chynaliadwyedd yr amgylchedd

[41] CCAUC, Asesu Ymchwil, fel ar 5 Mawrth 2013]

## *13.2. Ymarfer Asesu Ymchwil 2008*

Arferai'r ymchwil yn SAU y DU gael ei asesu drwy gyfrwng Ymarfer Asesu Ymchwil y Deyrnas Unedig. Cynhaliwyd yr Ymarfer hwnnw ddiwethaf yn 2008.

Cynhaliwyd Ymarfer 2008 drwy broses adolygu gan gymheiriaid, sef, panelau o arbenigwyr a oedd yn dod yn bennaf o'r gymuned academaidd, ond a oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o fyd diwydiant a masnach a oedd yn ymwneud â gwahanol feysydd pwnc.

Dyfarnwyd gradd ansawdd gan y panelau yn dibynnu ar ba lefel yr oedd yr ymchwil wedi'i chyrraedd yn eu barn hwy. Roedd pedair lefel ansawdd yn amrywio o 4* (yn arwain y byd) i 1* (cydnabyddiaeth genedlaethol) a diddosbarth. Dangosir diffiniadau llawn y lefelau ansawdd isod:

Dyma sut y diffinnir y lefelau ansawdd:

- Pedair seren (4*) – Ansawdd sy'n arwain y byd o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a manwl gywirdeb.
- Tair seren (3*) – Ansawdd sy'n rhyngwladol ragorol o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a manwl gywirdeb, ond nad yw, er hynny, yn cyrraedd y safonau rhagoriaeth uchaf un.
- Dwy seren (2*) – Ansawdd sy'n cael cydnabyddiaeth ryngwladol am wreiddioldeb, arwyddocâd a manwl gywirdeb.
- Un seren (1*) – Ansawdd sy'n cael cydnabyddiaeth genedlaethol am wreiddioldeb, arwyddocâd a manwl gywirdeb.
- Diddosbarth – Ansawdd sy'n is na'r safon gwaith a gaiff gydnabyddiaeth genedlaethol. Neu waith nad yw'n cyrraedd safon y diffiniad cyhoeddedig o ymchwil ar gyfer yr asesiad.[42]

Mae Tabl 18 yn dangos nifer y sefydliadau yng Nghymru a fu'n cymryd rhan yn Ymarfer 2008 o'i chymharu â gweddill yn Deyrnas Unedig.

**Tabl 18: Cymryd rhan yn Ymarfer Asesu Ymchwil 2008**

| | Cymru | Y DU | Cymru fel canran o'r DU |
|---|---|---|---|
| Nifer y sefydliadau a gafodd RAE yn 2008 | 10 a'r Ganolfan Uwchefrydiau | 159 | 6.9 |
| Nifer y cyflwyniadau i RAE 2008 | 144 | 2,344 | 6.1 |
| Nifer y staff Categori A (Cyfwerth ag amser llawn) i RAE 2008 | 2,578 | 52,409 | 4.9 |

Ffynhonnell: CCAUC, Ymarfer Asesu Ymchwil 2008: Canlyniadau ar gyfer y Sector AU Cymru, 26 Mawrth 2009

Nodyn:

(a) Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru yw'r Ganolfan Uwchefrydiau

[42] CCAUC, 2008 Research Assessment Exercise: Outcomes for the Welsh Higher Education Sector, 26 Mawrth 2009 [fel ar 11 Mawrth 2013]

Mae Tabl 19 yn dangos proffiliau ansawdd cyffredinol Cymru o’i chymharu â chenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig. Gellir gweld bod gweithgarwch ymchwil yng Nghymru fymryn yn is o ran y ganran sydd ar lefelau 3 a 4* (49 y cant) na chyfartaledd y Deyrnas Unedig (54 y cant), a bod yma ganran fymryn yn uwch o weithgarwch ymchwil ar lefelau ansawdd 1 a 2* (50 y cant) na chyfartaledd y Deyrnas Unedig (44 y cant).

**Tabl 19: Canran y gweithgarwch ymchwil wedi’i dosbarthu yn ôl lefel ansawdd, fesul cenedl yn y Deyrnas Unedig**

Canran y gweithgarwch ymchwil a raddiwyd yn:

| Lefel Ansawdd | Cymru | Lloegr | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | Y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|---|---|
| 4* | 14 | 18 | 15 | 14 | 17 |
| 3* | 35 | 37 | 37 | 36 | 37 |
| 2* | 36 | 32 | 34 | 37 | 33 |
| 1* | 14 | 11 | 13 | 12 | 11 |
| Diddosbarth | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 |

Ffynhonnell: CCAUC, Ymarfer Asesu Ymchwil 2008: Canlyniadau ar gyfer Sector Addysg Uwch Cymru, 26 Mawrth 2009

Nodyn:

(a) Mewn ambell achos nid yw cyfanswm y gwerthoedd yn 100 y cant oherwydd bod y ffigurau’n cael eu talgrynu.

Mae Tabl 20 yn dangos proffil ansawdd pob SAU unigol yng Nghymru a oedd yn bodoli adeg Ymarfer Asesu Ymchwil 2008. Mae’n dangos bod canrannau lefelau ansawdd Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru (CAWCS), Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru, Casnewydd ar gyfer gweithgarwch ymchwil ar lefel 3 neu 4* yn uwch na chyfartaledd Cymru.

**Tabl 20: Canran y gweithgarwch ymchwil wedi’i dosbarthu yn ôl lefel ansawdd, fesul SAU yng Nghymru**

Canran y gweithgarwch ymchwil yn ôl lefel ansawdd

| Sefydliad | Diddosbarth | 1* | 2* | 3* | 4* | Gweithgarwch 3* neu 4* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | 0 | 15 | 37 | 32 | 16 | 48 |
| Prifysgol Bangor | 1 | 14 | 38 | 36 | 12 | 48 |
| Prifysgol Caerdydd | 0 | 9 | 32 | 40 | 19 | 59 |
| Y Ganolfan Uwchefrydiau | 0 | 5 | 15 | 45 | 35 | 80 |
| Prifysgol Glyndŵr | 12 | 31 | 34 | 21 | 2 | 23 |
| Prifysgol Fetropolitan Abertawe | 9 | 28 | 41 | 17 | 5 | 22 |
| Prifysgol Abertawe | 1 | 13 | 38 | 36 | 11 | 47 |
| Coleg Prifysgol y Drindod | .. | .. | .. | .. | .. | .. |
| Prifysgol Morgannwg | 4 | 25 | 41 | 25 | 6 | 31 |
| Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd | 7 | 31 | 35 | 23 | 5 | 28 |
| Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan | 4 | 19 | 46 | 25 | 6 | 31 |
| Prifysgol Cymru Casnewydd | 3 | 14 | 28 | 48 | 7 | 55 |
| **Cymru** | **1** | **14** | **36** | **35** | **14** | **49** |

Ffynhonnell: CCAUC, Ymarfer Asesu Ymchwil 2008: Canlyniadau ar gyfer Sector Addysg Uwch Cymru, 26 Mawrth 2009

Nodyn:

(a) yn golygu amherthnasol

## 14. Cyhoeddiadau AU diweddar

- Ym mis Hydref 2012, cytunodd Prifysgol y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe i uno gan ffurfio un brifysgol ond nid oedd hyn wedi digwydd mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12.[43]
- Ym mis Mawrth 2013, yn ei ddatganiad llafar ynghylch ad-drefnu AU yn Ne Ddwyrain Cymru, rhoddodd Leighton Andrews (AC), y Gweinidog Addysg a Sgiliau, fanylion am y cynlluniau i uno Prifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg ym mis Ebrill 2013. Ar ôl yr uno, enw'r sefydliad newydd fydd Prifysgol De Cymru.[44]
- Ym mis Chwefror 2013, gwnaeth y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad ysgrifenedig ynghylch y ddarpariaeth AU yng ngogledd ddwyrain Cymru, gan ddweud y byddai dyddiad cyflwyno adroddiad terfynol y Panel Adolygu ynghylch darpariaeth Addysg Uwch yn y gogledd-ddwyrain yn cael ei ymestyn tan ddiwedd Mehefin 2013.[45]
- Ym mis Mawrth 2013, gwnaeth y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad am y cymorth i Is-raddedigion Addysg Uwch rhan-amser gan ddweud bod Addysg Uwch ran-amser yn dal i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac y byddai arian ar gael drwy gyfrwng CCAUC er mwyn parhau i ddarparu cymhorthdal ar gyfer cyrsiau rhan-amser ac y byddai myfyrwyr sy'n astudio  dros 25 y cant o gwrs amser llawn, o 2014/15 ymlaen, yn gallu manteisio ar fenthyciadau prawf modd gan Gyllid Myfyrwyr Cymru er mwyn talu'r blaengostau.[46]
- Ym mis Mawrth 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr ymatebion i'r ***Papur Gwyn - Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) 2013***.[47] Yn ei ddatganiad, dywed y Gweinidog:

  > O ran addysg uwch, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ddadansoddi a datblygu ymhellach y cynigion yn y Papur Gwyn. Byddaf yn cyflwyno'r darpariaethau mewn perthynas â diwygio addysg uwch drwy ddeddfwriaeth yn hwyrach yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

---

[43] Prifysgol Fetropolitan Abertawe, **Historic Moment for Welsh Higher Education as Institutions merge** Hydref 2012 [fel ar 11 Mawrth 2013]
[44] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Y Gweinidog Addysg a Sgiliau), **Ad-drefnu Addysg Uwch,** Datganiad Llafar y Cabinet, 6 Tachwedd 2012 [fel ar 11 Mawrth 2013]
[45] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Y Gweinidog Addysg a Sgiliau), **Adolygiad o Ddarpariaeth Addysg Uwch yng Ngogledd-ddwyrain Cymru - Newid Dyddiad Cyflwyno'r Adroddiad Terfynol** Datganiad Llafar  y Cabinet, 19 Tachwedd [fel ar 11 Mawrth 2013]
[46] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Y Gweinidog Addysg a Sgiliau), **Cymorth ar gyfer Is-raddedigion Addysg Uwch Rhan-amser** Datganiad Llafar y Cabinet, 5 Mawrth 2013 [fel ar 11 Mawrth  2013]
[47] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Y Gweinidog Addysg a Sgiliau), **Crynodeb Llywodraeth Cymru i'r Ymatebion i'r Papur Gwyn - Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) 2013**, 6 Mawrth 2013 [fel ar 11 Mawrth 2013 ]

# 15. Atodiad 1

## Tabl 1 Grantiau'r corff ariannu fesul SAU yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12

*£ miloedd*

| | Grantiau ar gyfer darpariaeth AU (Grantiau SFU ar gyfer yr holl ddarpariaeth | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rheolaidd (addysgu) | Rheolaidd (ymchwil) | Rheolaidd arall - gan gynnwys darpariaeth arbennig | Rhyddhau cyfalaf gohiriedig grantiau - adeiladau | Rhyddhau cyfalaf gohiriedig grantiau - offer | Grantiau ar gyfer darpariaeth AB (nid yw'n berthnasol i'r SFC) | **Cyfanswm grantiau'r cyrff ariannu** |
| Prifysgol Aberystwyth | 21,494 | 7,382 | 6,985 | 981 | 984 | 841 | 38,667 |
| Prifysgol Bangor | 21,102 | 6,952 | 6,113 | 402 | 361 | 2,362 | 37,292 |
| Prifysgol Caerdydd | 60,171 | 39,956 | 13,348 | 3,326 | 567 | 0 | 117,368 |
| Prifysgol Fetropolitan Caerdydd | 22,495 | 1,118 | 2,165 | 145 | 165 | 533 | 26,621 |
| Prifysgol Morgannwg | 43,902 | 2,292 | 3,966 | 1,091 | 300 | 8,244 | 59,795 |
| Prifysgol Glyndŵr | 12,806 | 0 | 2,872 | 515 | 104 | 0 | 16,297 |
| Prifysgol Cymru, Casnewydd | 17,291 | 454 | 2,075 | 364 | 394 | 465 | 21,043 |
| Prifysgol Fetropolitan Abertawe | 13,768 | 196 | 1,168 | 154 | 214 | 359 | 15,859 |
| Prifysgol Abertawe | 26,458 | 11,645 | 6,849 | 1,809 | 88 | 0 | 46,849 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 10,499 | 664 | 2,661 | 304 | 541 | 45 | 14,714 |
| Prifysgol Cymru (swyddogaethau canolog) | 0 | 397 | 95 | 18 | 43 | 0 | 553 |
| **Cyfanswm Cymru** | **249,986** | **71,056** | **48,297** | **9,109** | **3,761** | **12,849** | **395,058** |

Ffynhonnell: HESA: HE Finance Plus 2011/12, Tabl 6b [copi caled],

Nodyn:

(a) Mae ystadegau ariannol HESA 2011/12 wedi'u seilio ar ddatganiadau ariannol cyfnerthedig drafft y sefydliadau.

## Tabl 2: Cyfanswm ffioedd dysgu a grantiau cymorth gan SAU Cymru ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12

*£ miloedd*

| SAU | Cyfanswm Ffioedd Myfyrwyr sy'n Hanu o Gymru | Cyfanswm ffioedd Myfyrwyr sy'n Hanu o'r UE | Cyfanswm Ffioedd Myfyrwyr o'r tu allan i'r UE | Ffioedd Cyrsiau Eraill | Grantiau Cynhaliaeth Ymchwil a Hyfforddi | Cyfanswm ffioedd dysgu a grantiau cynhaliaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | 25,858 | 2,553 | 5,673 | 305 | 0 | 34,389 |
| Prifysgol Bangor | 29,510 | 1,615 | 17,305 | 455 | 849 | 49,734 |
| Prifysgol Caerdydd | 69,833 | 3,655 | 38,012 | 5,829 | 6,518 | 123,847 |
| Prifysgol Fetropolitan Caerdydd | 25,901 | 558 | 9,495 | 25 | 23 | 36,002 |
| Prifysgol Morgannwg | 41,789 | 2,272 | 14,890 | 1,680 | 156 | 60,787 |
| Prifysgol Glyndŵr | 12,186 | 1,046 | 6,434 | 0 | 0 | 19,666 |
| Prifysgol Cymru, Casnewydd | 14,455 | 426 | 3,741 | 42 | 0 | 18,664 |
| Prifysgol Fetropolitan Abertawe | 12,479 | 443 | 3,320 | 179 | 0 | 16,421 |
| Prifysgol Abertawe | 39,780 | 1,534 | 17,421 | 1,829 | 237 | 60,801 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 9,302 | 333 | 1,340 | 0 | 0 | 10,975 |
| Prifysgol Cymru (swyddogaethau canolog) | 0 | 0 | 0 | 0 | 892 | 892 |
| **Cyfanswm Cymru** | 281,093 | 14,435 | 117,631 | 10,344 | 8,675 | 432,178 |

Ffynhonnell: HESA: HE Finance Plus 2010/11, Tabl 6a [copi caled],

Nodyn:

(a) Mae ystadegau ariannol HESA 2011/12 ar gyfer Prifysgol Morgannwg wedi'u seilio ar ddatganiadau ariannol cyfnerthedig drafft y sefydliadau.